Cyhoeddwyd y ddogfen hon yn y Gymraeg a'r Saesneg.

# Y Diploma Mynediad i Addysg Uwch: Adolygiad o'r Trefniadau Rheoleiddio a Thrwyddedu

## Ymgynghoriad ar Newidiadau i'r Cynllun Cydnabod

**Mai 2024**

# Cynnwys


**Cyflwyniad** .......... **1**

Ynghylch yr ymgynghoriad hwn .......... 2

Y camau nesaf .......... 3

**1 Elfennau cyfansoddol y Cynllun Cydnabod** .......... **5**

Y Cynllun Cydnabod .......... 5

Gwaith nad yw'n gysylltiedig â'r Cynllun Cydnabod .......... 6

Ymgysylltu ag Asiantaethau DMiAU a darparwyr a llywodraethu'r Cynllun Cydnabod .......... 6

Nod y Diploma Mynediad i AU .......... 7

**2 Y trefniadau ar gyfer mynd i Gytundeb Trwyddedu a'i gynnal** .......... **8**

Cyfnodau penodol o ddilysrwydd ar gyfer trwyddedau .......... 8

Y ffioedd sy'n daladwy gan Asiantaethau DMiAU i QAA .......... 9

**3 Yr Amodau Mynediad i Addysg Uwch** .......... **11**

**4 Y trefniadau monitro** .......... **13**

Y trefniadau monitro presennol .......... 13

Y trefniadau monitro arfaethedig .......... 13

Ymyriadau rheoleiddio .......... 16

Gweithredu camau monitro a rheoleiddio .......... 17

**5 Manyleb y Diploma a'r Cynllun Graddio** .......... **19**

**6 Y Diploma Mynediad i AU Rhyngwladol** .......... **20**

Diffiniad o'r Diploma MiAU Rhyngwladol .......... 20

Nod y Diploma MiAU Rhyngwladol .......... 20

Trwyddedu a rheoleiddio .......... 21

Cyfnod peilot .......... 23

**7 Trefniadau pontio a gweithredu** .......... **24**

**Atodiad A: Yr Amodau Mynediad i Addysg Uwch** .......... **25**

**Atodiad B: Y Cytundeb Trwyddedu i Asiantaethau Dilysu Mynediad i Addysg Uwch** .. **45**

# Cyflwyniad

1 Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA) yw'r corff sy'n gyfrifol am reoleiddio'r Diploma Mynediad i Addysg Uwch ('Mynediad i AU'), ac mae wedi bod yn cyflawni'r rôl hon ers ei sefydlu yn 1997 pan drosglwyddwyd swyddogaethau'r Cyngor Ansawdd Addysg Uwch iddi. Rydym yn ystyried hon yn swyddogaeth bwysig yr ydym yn ei chyflawni ar ran y sector addysg uwch yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae nodau elusennol QAA yn cynnwys rhoi cyngor i'r llywodraethau, os gofynnir amdano, ynglŷn â chydnabyddiaeth i gyrsiau Mynediad i AU. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu mai dim ond y cyrsiau hynny sy'n atebol i'n trefniadau rheoleiddio fydd yn cael eu cydnabod gan y llywodraethau at ddibenion sicrhau cyllid (lle bo'n berthnasol). Hefyd, rydym yn diogelu'r cymhwyster drwy gofrestru a chadw nifer o nodau masnach.

2 Mae'r Diploma Mynediad i Addysg Uwch yn gymhwyster lefel 3 sydd, ar hyn o bryd, yn canolbwyntio'n bennaf ar ddysgwyr sy'n oedolion nad ydynt efallai, am ba reswm bynnag, wedi ennill y cymwysterau lefel 3 sy'n angenrheidiol i fynd i mewn i addysg uwch o dan y gofynion mynediad presennol. Lluniwyd y Diploma hwn i roi sgiliau a gwybodaeth i'r dysgwyr mewn meysydd astudio penodol, gan alluogi iddyn nhw wedyn ddilyn cymwysterau addysg uwch ar lefel 4 neu'n uwch.

3 Mae nifer o wahanol swyddogaethau i'n gweithgareddau rheoleiddio. Rydym yn trwyddedu'r cyrff dyfarnu, sef yr Asiantaethau Dilysu Mynediad i Addysg Uwch ('Asiantaethau DMiAU'), i'w caniatáu i ddatblygu, dilysu a dyfarnu'r cymwysterau, gan weithio gyda darparwyr sy'n darparu cyrsiau sy'n arwain at y cymhwyster. Rydym yn rhoi gofynion rheoleiddiol ar yr Asiantaethau DMiAU drwy ein Meini Prawf Trwyddedu a thrwy'r trefniadau monitro cysylltiedig a weithredir gennym. Hefyd, rydym yn gosod gofynion penodol ym Manyleb y Diploma a'r Cynllun Graddio cysylltiedig. Ar gyfer rhai meysydd astudio, rydym hefyd yn gosod rhai o'r gofynion cynnwys ar gyfer unedau'r Diploma - mewn dogfennau y galwn yn Ddisgrifwyr Pwnc. Rydym yn cyfeirio at yr holl elfennau hyn ar y cyd fel 'y Cynllun Cydnabod'.

4 Mae nifer o ddibenion i'n dull rheoleiddio. Yn bennaf, rydym yn rheoleiddio'r Diploma Mynediad i AU er budd y dysgwyr sy'n astudio i ennill y cymhwyster er mwyn sicrhau bod pob cwrs a ddarperir sy'n arwain at gymhwyster Mynediad i AU yn cynnal y safonau cyffredinol a osodir gennym, bod ansawdd yn cael ei sicrhau, a bod cynnwys y cwrs a'r dull o'i ddarparu'n addas i'r diben. Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn sicrhau bod y dysgwyr sy'n cwblhau'r cymhwyster yn cael siawns resymol o sicrhau lle ar gwrs addysg uwch. Mae gan y Diploma Mynediad i AU y potensial i weddnewid bywydau unigolion, yn ogystal â chynorthwyo twf economaidd a chynnydd cymdeithasol ehangach. Mae'r nodau hyn yn alinio â strategaeth QAA, yn benodol ein ffocws ar sicrhau safonau academaidd a gwerth y cymwysterau.

5 Yn debyg i bob corff arall sy'n rheoleiddio cymwysterau, rydym hefyd yn sicrhau y cynhelir diogelwch a chadernid y trefniadau ar gyfer dyfarnu'r cymhwyster. Hefyd, oherwydd natur unigryw'r cymhwyster, a'r rôl sydd gan QAA fel corff sefydledig yn y sector addysg drydyddol yn y DU, rydym mewn sefyllfa dda i sicrhau bod y cymhwyster yn parhau'n berthnasol ac i gefnogi ei dyfiant.

6 Yn 2023, roeddem yn hynod falch bod yr Adran Addysg yn Lloegr wedi cadarnhau y byddai'r Diplomâu Mynediad i Addysg Uwch a gydnabyddir gan QAA yn parhau i fod yn gymhwyster sy'n caniatáu i'r dysgwyr sicrhau cyllid ar gyfer eu hastudiaethau i ennill y cymhwyster. Yn ein barn ni, mae hyn yn amlygu statws y cymhwyster, ond mae hefyd yn rhoi rhagor o bwys ar sicrhau bod y trefniadau i reoleiddio'r cymhwyster yn aros yn gyfatebol â'r datblygiadau yn amgylchedd ehangach y cymwysterau lefel 3.

## Ynghylch yr ymgynghoriad hwn

7 Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â newidiadau sylweddol arfaethedig i'r Cynllun Cydnabod, gyda ffocws arbennig ar y Meini Prawf Trwyddedu a'r trefniadau monitro. Er ein bod yn adolygu elfennau o'r Cynllun Cydnabod yn gyfnodol (er enghraifft, ym misoedd olaf 2022, aethom ati i ymgynghori ar newidiadau i Fanyleb y Diploma), nid ydym wedi adolygu'r Meini Prawf Trwyddedu'n fanwl ers amser, nac wedi cynnig unrhyw newidiadau sylweddol iddyn nhw. Ond, rydym yn ystyried bod yr amser yn gywir i wneud hyn yn awr. Rydym hefyd yn ystyried bod hwn yn gyfle priodol i roi rhagor o eglurhad am ein dull o fonitro Asiantaethau DMiAU ac i benderfynu a ydyn nhw'n bodloni gofynion y Cynllun Cydnabod ai peidio, ynghyd â'r cyfryngau rheoleiddio sydd ar gael i ni os bydd pryderon gennym yn ymwneud â diffyg cydymffurfiad.

8 Mae nifer o resymau dros gredu mai nawr yw'r amser priodol i weithredu'r newidiadau hyn. Mae'r rhain wedi eu disgrifio'n fanylach isod.

### Y tirlun cymwysterau lefel 3

9 Bydd y tirlun cymwysterau ar lefel 3 yn Lloegr yn newid yn sylweddol dros y blynyddoedd nesaf. Er mwyn sicrhau bod y Diploma Mynediad i AU yn cadw ei safle yn y tirlun hwn, credwn fod angen i'r strwythurau rheoleiddio sy'n tanategu'r Diploma fod yn hyblyg, yn addasadwy ac yn addas i'w diben ar gyfer y dyfodol.

10 Hefyd, rydym wedi gweld newidiadau eraill mewn perthynas â chymwysterau dros y blynyddoedd diwethaf. Er enghraifft, rydym wedi gweld y ddarpariaeth prentisiaethau'n tyfu ar bob lefel cymhwyster, a chyflwyniad Lefelau T ar lefel 3. Heddiw, mae mwy o gyfleoedd a llwybrau ar gael i ddysgwyr ar gyfer symud ymlaen i addysg uwch. Mae hyn yn golygu bod angen gwneud yn siŵr bod rôl arbennig Mynediad i AU yn eglur er mwyn sicrhau bod darpar ddysgwyr, darparwyr y cymhwyster, darparwyr addysg uwch, a rhanddeiliaid eraill (megis darparwyr nad ydynt yn cynnig y cymhwyster, neu gyflogwyr) yn deall y manteision penodol a allai ddeillio o astudio ar gyfer Diploma Mynediad i AU.

### Y baich rheoleiddiol

11 Un o brif nodau ein dull rheoleiddio yw rhoi cyngor (a sicrwydd, yn y pen draw) i'r llywodraethau i'w caniatáu i gynnig cyllido ar gyfer Mynediad i AU. Mae hyn wedi ei danategu gan y gweithgareddau rheoleiddio a wnawn i gynnal cywirdeb ac ansawdd y cymhwyster, ac i sicrhau bod y dysgwyr yn cael eu cefnogi i symud ymlaen i addysg uwch ac i lwyddo yn y maes hwn. Er mwyn cyflawni hynny, mae'n rhaid i ni sicrhau bod ein trefniadau rheoleiddio nid yn unig yn ddigon cadarn, ond hefyd yn gymesur.

12 Rydym wedi derbyn adborth gan Asiantaethau DMiAU sy'n tynnu sylw at yr effaith y mae ein dull rheoleiddio'n ei chael arnyn nhw (ac, yn ei dro, yr effaith y mae hyn yn ei chael ar ddarparwyr y cymhwyster); ac, yn arbennig, sylwadau i gadarnhau a yw pob un o'n gweithgareddau rheoleiddio'n gymesur. O ganlyniad, mae'n ymddangos bod gwir bryder ynglŷn â baich rheoleiddiol sy'n cael ei basio ymlaen i ddarparwyr y cymhwyster, a'r effaith y gallai hyn ei chael arnyn nhw. Ar y cyfan, mae risg y gallai gofynion rheoleiddiol nad ydynt yn gymesur â'r risg rheoliadol atal twf y cymhwyster, ac mae hon yn sefyllfa nad yw unrhyw un eisiau ei gweld.

13 Yn ystod y pandemig COVID-19, roedd angen i ni weithredu'n gyflym, ac aethom ati i gyflwyno Fframwaith Rheoleiddio Eithriadol gyda'r nod penodol o fynd i'r afael â'r heriau eithriadol a digynsail a gododd yn sgil y pandemig. Rydym wedi dysgu, o'n profiad o weithredu'r Fframwaith Rheoleiddio Eithriadol, fod nifer o newidiadau y gallem eu cyflwyno i'n gweithgareddau rheoleiddio arferol a fyddai'n fanteisiol i'r ffordd yr ydym yn goruchwylio Mynediad i AU.

### Cynorthwyo twf Mynediad i AU

14 Pan gyflwynwyd newidiadau i'r ffordd o reoleiddio addysg uwch yn Lloegr o 2018 ymlaen, newidiodd y ffordd yr ariennir ein gweithgareddau rheoleiddio yn sylweddol. O ganlyniad, mae ein gweithgareddau'n cael eu hariannu'n bennaf (ond nid yn gyfan gwbl) erbyn hyn gan yr Asiantaethau DMiAU a reoleiddir gennym. Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi cyflwyno newidiadau bychain i'r ffordd yr ydym yn rheoleiddio ac yn trwyddedu Asiantaethau DMiAU, er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw risgiau sy'n codi ac i sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar y materion sy'n bwysig. Wrth wneud hynny, rydym bob amser wedi ceisio osgoi pasio costau ychwanegol ymlaen i'r Asiantaethau DMiAU (ac i ddarparwyr y cymhwyster a'r dysgwyr, yn y pen draw). Ond, mae hi'n gynyddol amlwg i ni fod y trefniadau rheoleiddio presennol, os na chânt eu diwygio, yn annhebygol o barhau i fod yn fforddiadwy ac yn ariannol gynaliadwy. Y rheswm am hyn yw ein bod yn gwario llawer iawn o'n harian ar adnoddau staffio i weithredu'r trefniadau rheoleiddio, ac mae'r gofynion, y strwythurau a'r prosesau sy'n tanategu'r trefniadau hyn yn dylanwadu'n drwm ar y defnydd a wneir o'n hadnoddau staffio.

15 Os bydd gofyn i ni gymryd y cyfrifoldeb am gyflawni gweithgareddau ychwanegol annisgwyl, gallai hyn hefyd effeithio ar y defnydd a wneir o'n hadnoddau. Er enghraifft, gofynnwyd i QAA gymryd y cyfrifoldeb am gyflawni gweithgareddau ychwanegol i reoli'r effaith ar y darparwyr a'r myfyrwyr pan beidiodd un o'r Asiantaethau DMiAU â masnachu yn ddirybudd yn 2022. Mae hyn wedi pwysleisio i ni mor bwysig yw sicrhau bod ein trefniadau diogelu rheoleiddiol yn gadarn ar gyfer y dyfodol, gyda threfniadau rheoleiddio sydd nid yn unig yn ddigon cadarn ond sydd hefyd yn rhoi lefel gymesur o faich gwaith ar yr Asiantaethau DMiAU sy'n gorfod cydymffurfio â'r gofynion, ac ar QAA sy'n gyfrifol am eu gweithredu a'u monitro.

16 Bydd hyn yn ein galluogi fwyfwy i wneud gwaith i gynorthwyo twf Mynediad i AU mewn da bryd. Er enghraifft, rydym wedi bod yn archwilio ac yn datblygu ffyrdd newydd o sicrhau twf y cymhwyster, yn arbennig drwy wneud prosiect mewn partneriaeth â'r Asiantaethau DMiAU presennol i ddatblygu opsiwn i gynnig Mynediad i AU yn rhyngwladol.

17 Ar sail yr holl resymau uchod, rydym wedi dod i'r casgliad y bydd diwygio'r Cynllun Cydnabod yn waith gwerthfawr iawn, ac yn arbennig o angenrheidiol mewn nifer o feysydd.

## Y camau nesaf

18 Rydym yn rheoleiddio Asiantaethau DMiAU yn uniongyrchol, felly mae pob agwedd o'r ymgynghoriad hwn yn berthnasol iddyn nhw. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol y gall y gofynion a roddwn ar Asiantaethau DMiAU ddod yn ofynion gan Asiantaethau DMiAU ar ddarparwyr y cymhwyster; felly, rydym hefyd yn awyddus i glywed barn darparwyr am y newidiadau yr ydym yn eu cynnig. Yn ein barn ni, mae'r gofynion a osodir gennym o ran y trefniadau monitro'n debygol o fod yn arbennig o berthnasol yn hyn o beth.

19 Mae barn darparwyr addysg uwch yn bwysig i ni hefyd. Mae hyn yn cynnwys y darparwyr hynny sy'n derbyn dysgwyr ar hyn o bryd sydd wedi cwblhau'r cymhwyster Mynediad i AU, a'r rheiny a allai ystyried gwneud hynny yn y dyfodol, ac unrhyw ddarparwyr addysg uwch fyddai o bosib eisiau ystyried darparu eu cyrsiau Mynediad i AU eu hunain. Yn ein barn ni, mae'r Diploma Mynediad i AU, fel cymhwyster lefel 3 cydnabyddedig presennol sydd â chredydau, yn opsiwn dilys arall i ddarparwyr sydd angen datblygu rhaglenni blwyddyn sylfaen, er enghraifft. Hefyd, rydym yn cydnabod, oherwydd y newidiadau yn y tirlun addysg uwch, y gallai dysgwyr ddefnyddio'r Diploma Mynediad i AU i fynd i mewn i amrywiaeth ehangach o raglenni addysg uwch, gan gynnwys prentisiaethau. Mae'n bosibl y gallai hyn ehangu ymhellach yn dibynnu ar unrhyw newidiadau a allai ddigwydd yn y ddarpariaeth yn dilyn gweithrediad yr Hawl Dysgu Gydol Oes yn nhrefniadau cyllid myfyrwyr addysg uwch.

20 Mae nifer o adrannau i'r ymgynghoriad hwn. Mae wedi ei strwythuro'n fras o amgylch y gwahanol elfennau yn seilwaith y Cynllun Cydnabod, fel sydd wedi ei nodi yn adran 1 isod. Ar ôl yr ymgynghoriad, rydym yn bwriadu cyhoeddi cyfres gynhwysfawr o ddogfennau sy'n disgrifio'r Cynllun Cydnabod, a byddwn, dros amser, yn cynhyrchu rhagor o ganllawiau ategol hefyd i esbonio sut y gellir dehongli ein gofynion.

21 Bydd yr ymgynghoriad hwn yn agored am 12 wythnos. Defnyddiwch ein harolwg ar-lein i gyflwyno eich atebion os gwelwch yn dda.

22 Ar ôl cau'r ymgynghoriad, byddwn yn ystyried yr ymatebion i gyd. Yna byddwn yn gwneud newidiadau i'n cynigion os byddwn yn ystyried bod rheswm clir i wneud hynny. Rydym yn bwriadu argymell i Fwrdd QAA eu bod yn mabwysiadu'r Cynllun Cydnabod wedi ei ddiweddaru ar sail fersiwn terfynol ein cynigion, rywbryd ym mis Mawrth 2025, gyda'r bwriad o weithredu'r Cynllun Cydnabod wedi ei ddiweddaru mewn da bryd cyn i flwyddyn academaidd 2025-26 ddechrau.

23 Yn Adran 7 yr ymgynghoriad hwn, rydym wedi disgrifio cynigion am drosglwyddo i'r trefniadau newydd hyn. Felly, byddwn yn cadarnhau'r trefniadau pontio yn ein hymateb i'r ymgynghoriad.

# 1 Elfennau cyfansoddol y Cynllun Cydnabod

24 Mae'r adran hon yn disgrifio elfennau cyfansoddol y Cynllun Cydnabod ac yn nodi'r meysydd hynny o'n gwaith yn ymwneud â Mynediad i AU nad ydynt yn gysylltiedig â'r Cynllun Cydnabod. Fel y nodwyd gennym yn y cyflwyniad, nid ydym yn bwriadu newid strwythur cyffredinol y Cynllun Cydnabod yn sylweddol - ond, rydym yn bwriadu gwneud newidiadau i'r rhannau cyfansoddol presennol.

## Y Cynllun Cydnabod

25 Gellir diffinio ein Cynllun Cydnabod arfaethedig yn fras fel un sy'n gweithredu yn y pum maes canlynol:

**Y Trefniadau Trwyddedu**

25.1 Dyma'r trefniadau sydd gennym i reoli'r broses o drwyddedu Asiantaethau DMiAU. Maent yn nodi'r gofynion ar gyfer dod yn Asiantaeth DMiAU ('y Cytundeb Trwyddedu') a chynnal trwydded Asiantaeth DMiAU.

**Yr Amodau Mynediad i Addysg Uwch**

25.2 O dan y trefniadau cyfredol, cyfeirir at y rhain yn gyffredin fel y Meini Prawf Trwyddedu. Rydym yn cynnig rhoi enw newydd iddynt, sef yr 'Amodau Mynediad i Addysg Uwch' ('yr Amodau'), oherwydd credwn y gallai'r trefnau enwi presennol achosi dryswch ynglŷn â phwrpas yr amodau hyn, o'u cymharu â'r gofynion ar gyfer dod yn Asiantaeth DMiAU a chadw trwydded (y Trefniadau Trwyddedu). I grynhoi, yr Amodau Mynediad i Addysg Uwch yw'r amodau y mae'n rhaid i Asiantaeth DMiAU barhau i'w bodloni wedi iddi lwyddo i gael ei thrwydded Asiantaeth DMiAU. Mae'n rhaid i sefydliad sydd eisiau dod yn Asiantaeth DMiAU ddangos sut mae'n bodloni, neu sut y gallai fodloni, nifer o'r amodau hyn.

**Y trefniadau monitro**

25.3 Ar hyn o bryd, mae gwybodaeth am ein dull o fonitro cydymffurfiad â'r Meini Prawf Trwyddedu wedi ei nodi mewn nifer o ddogfennau, gan gynnwys canllawiau a disgrifwyr gweithredol. Er ein bod yn bwriadu parhau i gyflwyno canllawiau i Asiantaethau DMiAU o bryd i'w gilydd, rydym o'r farn y byddai'n ddefnyddiol i'r holl bartïon gael disgrifiad o'r trefniadau monitro eang yr ydym yn bwriadu eu gweithredu. Mae'r elfen hon o'r Cynllun yn nodi'r ffordd yr ydym yn rheoli materion cydymffurfiad hefyd, gan gynnwys y pwerau sydd ar gael i ni os bydd pryderon gennym yn ymwneud â diffyg cydymffurfiad.

**Y gofynion o ran y cymhwyster**

25.4 Mae'r gofynion hyn wedi eu nodi ym Manyleb y Diploma, y Cynllun Graddio a'r Disgrifwyr Pwnc. Maent yn nodi ein gofynion o ran cynllunio, darparu, asesu a dyfarnu'r Diploma ac, mewn rhai achosion, y gofynion o ran cynnwys rhai meysydd astudio penodol.[1] Eu nod yw sicrhau bod y cymhwyster yn gyson, a'i fod yn gyson ar draws yr Asiantaethau DMiAU. Nid ydym yn bwriadu gwneud unrhyw newidiadau sylweddol i'r gofynion hyn yn yr ymgynghoriad hwn, ond byddwn yn disgrifio sut y bydd newidiadau yr ydym wedi eu nodi ac ymgynghori arnynt yn y gorffennol wedi eu heffeithio gan weithrediad y newidiadau ehangach arfaethedig sydd dan sylw yn yr ymgynghoriad hwn. Mae hyn yn cynnwys ailstrwythuro a symleiddio rhywfaint ar y gofynion - er enghraifft, symud y gorchymyn bod pob Asiantaeth

[1] Ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon, dyma'r Disgrifydd Pwnc ar gyfer Meddygaeth. Mae QAA wedi cyflwyno Disgrifydd Pwnc ar gyfer Nyrsio a Phroffesiynau Iechyd i'w dreialu o 2024 ymlaen, gyda'r bwriad o'i weithredu'n llawn ar gyfer blwyddyn academaidd 2025-26.

DMiAU yn gofyn i'w darparwyr gofrestru myfyrwyr o fewn 42 diwrnod ar ôl iddynt gychwyn ar eu cyrsiau, o Fanyleb y Diploma, lle mae'r gofyniad hwn wedi ei nodi ar hyn o bryd, i'r Amodau.

**Canllawiau**

25.5 Fel y mae'n ei wneud ar hyn o bryd, bydd QAA yn cynhyrchu canllawiau o bryd i'w gilydd sy'n rhoi rhagor o esboniad a manylion ynglŷn â sut y bydd elfennau penodol o'r Cynllun Cydnabod yn gweithredu (er enghraifft, monitro cydymffurfiad gydag amodau penodol). Nid yw'r canllawiau hyn yn cyflwyno unrhyw ofynion newydd neu ofynion ychwanegol at y rheiny sydd wedi eu nodi yn barod yn y Trefniadau Trwyddedu, yr Amodau, y trefniadau monitro, neu'r gofynion o ran y cymhwyster. Maent yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am y ffordd y mae QAA yn bwriadu gweithredu'r pethau hynny a sut y dylai'r Asiantaethau DMiAU a phartïon eraill eu dehongli - er enghraifft, drwy nodi pa ymddygiad fyddai'n cael ei ystyried gennym yn ymddygiad sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau a pha ymddygiad sydd ddim. Hefyd, gallent gynnwys manylion gweithredu a fyddai o ddefnydd yn ein barn ni - er enghraifft, cyfarwyddiadau technegol ynglŷn â sut i ryngweithio â systemau QAA.

26 I grynhoi, mae'r Trefniadau Trwyddedu'n rheoli pwy sy'n gymwys i ddyfarnu cymwysterau Mynediad i Addysg Uwch, ac maent yn nodi bod yn rhaid i bob Asiantaeth DMiAU, drwy wneud cais am y drwydded hon, fodloni'r Amodau parhaus ar gyfer Mynediad i Addysg Uwch, a'r gofynion o ran y cymhwyster. Mae'r holl agweddau hyn wedi eu tanategu gan y trefniadau monitro.

## Gwaith nad yw'n gysylltiedig â'r Cynllun Cydnabod

27 Mae QAA yn gorff sydd wedi ei ymrwymo i gefnogi myfyrwyr i fynd i mewn i addysg uwch, ac mae rhai gweithgareddau y byddai'n ochelgar i ni eu gwneud fel sefydliad, yn ein barn ni, sy'n cyd-fynd â'r swyddogaethau rheoleiddio craidd sydd wedi eu nodi uchod, yn rhan o'n trefniadau mewn perthynas â'r Cynllun Cydnabod ac er mwyn cyflawni nodau elusennol QAA. Dyma rai esiamplau o'r gweithgareddau hyn: hyrwyddo'r Diploma Mynediad i Addysg Uwch fel cymhwyster; gwneud gwaith ymchwil i gyflawniad a llwyddiant y myfyrwyr sydd wedi dilyn cyrsiau Mynediad i AU.

28 Yn achlysurol, efallai y bydd gweithgareddau i gefnogi datblygiadau newydd ym maes Mynediad i AU (er enghraifft, datblygu trwyddedau i ganiatáu i Asiantaethau DMiAU gynnig y cymhwyster yn rhyngwladol) sydd y tu allan i waith cyfredol y Cynllun Cydnabod. O bryd i'w gilydd, efallai y byddwn yn cytuno i wneud y gweithgareddau hyn ar y cyd ag Asiantaethau DMiAU. Yn yr achosion hyn, rydym yn cyfeirio at y gweithgareddau fel 'gweithgareddau partneriaeth'. Gall y rhain fod y tu allan i'n gweithgareddau arferol, gallem fynd i drefniadau ariannu ar wahân, er enghraifft, gofyn i Asiantaethau DMiAU dalu ffioedd ychwanegol i gefnogi ein gwaith datblygu mewn meysydd o'r fath. Ni fydd Asiantaethau DMiAU o dan unrhyw oblygiad i dalu'r ffioedd hyn, er y gallai hyn hefyd olygu y bydd rhai darnau o waith yn annhebygol o gael eu blaenoriaethu, neu mewn rhai achosion, ni chânt eu gwneud o gwbl.

## Ymgysylltu ag Asiantaethau DMiAU a darparwyr a llywodraethu'r Cynllun Cydnabod

29 Bydd y dull ymgysylltu yr ydym yn bwriadu ei weithredu'n cefnogi gweithrediad y Cynllun Cydnabod. Rydym o'r farn ei bod hi'n bwysig nodi sut y byddwn yn gweithio gydag Asiantaethau DMiAU.

30 Mae gan QAA dîm Mynediad i Addysg Uwch sy'n gyfrifol am weithredu'r Cynllun Cydnabod o ddydd i ddydd. Y tîm hwn fydd y prif bwynt cyswllt i Asiantaethau DMiAU sydd â chwestiynau neu bryderon. Mae'r tîm yn rheoli'r trefniadau monitro ac yn ymgysylltu ag

Asiantaethau DMiAU yn briodol - yn unigol ac ar y cyd. Hefyd, efallai y byddwn yn sefydlu ac yn cynnal grwpiau i gyfarfod ag Asiantaethau DMiAU sy'n canolbwyntio ar bwnc penodol, a gall y grwpiau hyn fod yn barhaus neu am gyfnod penodol o amser yn unig. Bydd y rhain fel arfer yn canolbwyntio ar aelodau o staff yr Asiantaeth DMiAU sy'n gyfrifol am weithredu Mynediad i AU.

31 Ar lefel strategol, rydym yn cyfarfod yn rheolaidd â Phrif Weithredwyr yr Asiantaethau DMiAU fel grŵp, ddwywaith y flwyddyn fel arfer. Rydym wedi gweld hwn yn ddull effeithiol o rannu gwybodaeth am gyfeiriad strategol y Diplomâu Mynediad i AU, ac o geisio adborth lefel uchel am weithrediad y Cynllun Cydnabod, a byddem yn hoffi parhau gyda'r dull hwn. Hwn fel arfer fydd y fforwm hefyd lle gellir cynnig a chytuno ar weithgareddau partneriaeth rhwng Asiantaethau DMiAU a QAA.

32 Yn ogystal, byddwn yn cynnig cyfleoedd i'r Asiantaethau DMiAU unigol gyfarfod â ni, bob blwyddyn o leiaf, i drafod cyfeiriad strategol y Diplomâu Mynediad i AU, a rhannu gwybodaeth am eu blaenoriaethau ar lefel sefydliadol ar gyfer y dyfodol.

33 O bryd i'w gilydd, efallai y bydd QAA hefyd yn cyfathrebu'n uniongyrchol â darparwyr sy'n cynnig cyrsiau Mynediad i AU, yn ôl ein gwybodaeth. Gallai hyn fod ar sail unigol - er enghraifft, os byddwn angen ymchwilio mater sy'n ymwneud ag Asiantaeth DMiAU benodol; neu gallai fod yn fwy cyffredinol - er enghraifft, os byddwn eisiau rhannu gwybodaeth am y cymhwyster, ein gweithgareddau rheoleiddio, neu faterion pwysig eraill. Ond, bydd ein prif rôl, o ddydd i ddydd, yn canolbwyntio ar reoleiddio Asiantaethau DMiAU.

34 Mae Bwrdd QAA wedi sefydlu is-bwyllgor sydd â chyfrifoldeb penodol am oruchwylio'r Cynllun Cydnabod, o dan yr enw Pwyllgor Rheoleiddio a Thrwyddedu Mynediad i AU. Mae'r pwyllgor hwn yn gyfrifol am wneud argymhellion i Fwrdd QAA ynglŷn â materion sy'n ymwneud â datblygu'r Cynllun Cydnabod, ac, yn arbennig, mewn perthynas â dyfarnu trwyddedau Asiantaeth DMiAU neu eu tynnu yn eu hôl. Mewn perthynas â materion eraill sy'n ymwneud â gweithrediad y Cynllun Cydnabod, bydd yr awdurdod i wneud penderfyniadau gan y Rheolwr Diploma Mynediad i AU, aelod perthnasol o Uwch Dîm Rheoli QAA, neu aelod arall o Dîm Gweithredol QAA. Rydym yn ystyried y materion hyn ymhellach yn adran 4 yr ymgynghoriad hwn.

## Nod y Diploma Mynediad i AU

35 Ar hyn o bryd, mae nod a ffocws y Diploma Mynediad i AU yn cael eu mynegi'n wahanol mewn gwahanol fannau. Credwn fod yr ymgynghoriad hwn yn gyfle i ni wneud yn siŵr bod nodau a manteision y Diploma wedi eu diffinio'n glir.

36 Rydym yn cynnig diffinio nod y Diploma fel a ganlyn:

36.1 Mae'r Diploma Mynediad i AU yn gymhwyster lefel 3 (sy'n gyfatebol â Lefelau A a Lefelau T), ac mae'n canolbwyntio'n bennaf ar ddysgwyr sy'n oedolion ac sydd eisiau mynd i mewn i addysg uwch ond nad ydynt yn meddu ar y cymwysterau angenrheidiol yn y maes academaidd y maent eisiau astudio ynddo. Mae modd cwblhau cyrsiau Mynediad i AU llawn amser o fewn blwyddyn. Ar ôl cwblhau Diploma Mynediad i AU, gall y myfyrwyr symud ymlaen i astudio ar lefel uwch mewn darparwr addysg uwch - a gallai'r astudiaeth hon fod ar gyfer gradd neu gymhwyster lefel uwch arall ar lefel 4 neu'n uwch.

**Cwestiwn 1: Ydych chi eisiau rhoi unrhyw sylwadau am elfennau cyfansoddol y Cynllun Cydnabod a'r agweddau eraill sydd wedi derbyn sylw yn yr adran hon am ddull QAA?**

# 2 Y trefniadau ar gyfer mynd i Gytundeb Trwyddedu a'i gynnal

37 Yn yr adran hon, rydym yn disgrifio cynigion i ddiwygio ein Trefniadau Trwyddedu ag Asiantaethau DMiAU. Mae hyn yn cynnwys cynigion sy'n nodi sut y gall sefydliadau wneud cais i QAA am drwydded, sut y byddwn yn gweithredu proses ail-drwyddedu cyfnodol, a manylion y ffioedd sy'n berthnasol i Asiantaethau DMiAU trwyddedig.

38 Ar hyn o bryd, mae'r amodau safonol ar gyfer trwyddedu Asiantaethau DMiAU wedi eu nodi yn y Cytundeb Trwyddedu a'u dylanwadu gan yr Amodau Trwyddedu. Mae rhagor o fanylion i'w gweld mewn dogfen sy'n dwyn y teitl '*Trwyddedu Asiantaethau DMiAU - Disgrifiad Gweithredol*'. Mae hon yn cynnwys crynodeb o'r broses y byddwn yn ei dilyn i ystyried cais. Yn ein barn ni, gellid mireinio'r gyfres bresennol o ddogfennau'n sylweddol er mwyn gwead y broses o ddod yn Asiantaeth DMiAU yn llawer mwy eglur. Felly, mae QAA yn bwriadu cynhyrchu canllaw ynglŷn â dod yn Asiantaeth DMiAU, a fydd yn nodi sut y gall cyrff wneud cais i fod yn Asiantaeth DMiAU, a'r elfennau hynny o'r Cytundeb Trwyddedu a'r Amodau y bydd QAA yn asesu yn eu herbyn i benderfynu ar gais cychwynnol o'r fath. Unwaith y cyhoeddir dogfen o'r fath, byddwn yn tynnu'r ddogfen '*Trwyddedu Asiantaethau DMiAU - Disgrifiad Gweithredol*' bresennol yn ei hôl. Credwn y bydd cynhyrchu canllawiau rheoleiddiol wedi eu diweddaru'n symleiddio'r ddealltwriaeth o'n trefniadau rheoleiddio.

39 O ganlyniad i'r newidiadau a gynigir yn y ddogfen hon, a'r angen i QAA wneud ymarfer ail-drwyddedu ar gyfer pob un o'r Asiantaethau DMiAU presennol, fel y mae wedi ei ddisgrifio ymhellach isod, mae QAA wedi penderfynu peidio â derbyn unrhyw geisiadau newydd gan gyrff sydd eisiau dod yn Asiantaethau DMiAU tan rywbryd ym mlwyddyn academaidd 2024-25. Wrth benderfynu hyn, rydym wedi nodi mai prin ac anaml yw'r ceisiadau i ddod yn Asiantaeth DMiAU ac, ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon, nid ydym yn ymwybodol o unrhyw gorff sy'n ystyried dod yn Asiantaeth DMiAU. Serch hynny, rydym yn ei ystyried yn bwysig cyhoeddi'r safiad polisi hwn er mwyn osgoi unrhyw ddryswch os bydd unrhyw gorff yn camu ymlaen sydd eisiau gwneud cais. Pan fydd QAA yn cyhoeddi'r canllaw newydd ynglŷn â sut i ddod yn Asiantaeth DMiAU, byddwn yn ail agor y broses ymgeisio. Os bydd unrhyw un eisiau gwneud cais i QAA cyn i'r broses ymgeisio ail agor, dylent anfon e-bost at AHE@qaa.ac.uk i gofrestru eu diddordeb.

## Cyfnodau penodol o ddilysrwydd ar gyfer trwyddedau

40 Yn 2021, gwnaethom gynnig i Asiantaethau DMiAU y byddem yn symud i weithredu ar sail trwydded cyfnod penodol. Wedi hynny mae'n rhaid i Asiantaeth DMiAU wneud cais eto i gadw ei thrwydded. Tynnodd Prif Weithredwyr Asiantaethau DMiAU sylw'n anffurfiol at eu cefnogaeth i'r dull hwn ac, ym mis Hydref 2022 rhoesom gadarnhad y byddem yn mabwysiadu hyn fel ein safiad polisi cyffredinol. Rydym yn ystyried bod yr amser yn gywir i esbonio ein cynigion am ein ffordd arfaethedig o weithredu'r dull hwn yn y dyfodol.

41 Wrth ddatblygu'r cynigion hyn, rydym wedi ystyried yr adborth blaenorol yr ydym wedi ei dderbyn gan Asiantaethau DMiAU. Rydym hefyd wedi pwysleisio'r angen am sicrhau sefydlogrwydd ymysg Asiantaethau DMiAU (byddai hyn yn cefnogi'r ddadl dros ddyfarnu trwydded am gyfnod hirach), ond rydym hefyd wedi ystyried y ffaith bod angen sicrhau bod y dysgwyr yn cael eu diogelu'n briodol drwy sicrhau bod Asiantaethau DMiAU yn cael asesiadau rheolaidd gan QAA o'u gallu i barhau i fodloni gofynion y Cytundeb Trwyddedu (mae hyn yn cefnogi'r ddadl dros ddyfarnu trwydded am gyfnod byrrach). Yn QAA, rydym yn rhoi pwyslais ar fuddiannau'r dysgwyr a'r angen am sicrhau bod trefnau priodol ar waith i'w diogelu.

42 Ein rhesymeg dros gyflwyno cyfnodau penodol o ddilysrwydd ar gyfer trwyddedau Asiantaeth DMiAU yw bod hyn yn galluogi i'r holl bartïon ddeall yn glir bod agweddau penodol o'r Cytundeb Trwyddedu a'r Amodau Mynediad i AU yn mynd i gael eu hystyried. Ar hyn o bryd, mae'n bosib y gallai QAA ofyn am adolygiad o gydymffurfiad ar unrhyw adeg. Gall hyn achosi ansicrwydd i Asiantaethau DMiAU os nad ydynt yn gwybod yn siŵr pryd y gellid gofyn iddyn nhw gymryd rhan mewn gweithgareddau adolygu o'r fath. Mae hyn yn annymunol hefyd i ddysgwyr, oherwydd mae'n golygu nad yw'r Asiantaeth DMiAU yn cael ei hadolygu'n rheolaidd yn ei chyfanrwydd i sicrhau ei bod yn parhau'n addas i fod yn Asiantaeth DMiAU. Gall y symudiad i drwydded am gyfnod penodol roi sicrwydd i'r holl bartïon, a bydd yn sicrhau bod QAA yn gallu ailystyried ar adegau priodol a yw'r corff yn parhau'n addas i fod yn Asiantaeth DMiAU ai peidio.

43 Rydym yn cynnig bod hyd cyfnod dilysrwydd y drwydded Asiantaeth DMiAU yn cael ei benderfynu ar sail unigol, ond yn amodol ar y safiad polisi cyffredinol a ganlyn, fel canllaw:

| **Math o drwydded** | **Cyfnod o ddilysrwydd** |
|---|---|
| Trwydded newydd - i Asiantaethau DMiAU newydd | Cyfnod o dair blynedd ar y mwyaf |
| Trwydded wedi'i hadnewyddu - Asiantaethau DMiAU sy'n gwneud cais i gael eu hail-drwyddedu, lle nad oes unrhyw bryderon parhaus am eu cydymffurfiad (er enghraifft, nid ydynt yn derbyn ymchwiliad parhaus ar hyn o bryd) ac nid ydynt yn atebol i unrhyw weithgareddau rheoleiddio | Pum mlynedd |
| Trwydded wedi'i hadnewyddu - Asiantaethau DMiAU sy'n gwneud cais i gael eu hail-drwyddedu, lle mae pryderon parhaus am eu cydymffurfiad neu lle mae'r Asiantaeth DMiAU yn atebol i weithredu cyfredol gan QAA o ganlyniad i unrhyw weithgareddau monitro | Tair blynedd |

44 Rydym yn cynnig bod hawl gan Asiantaethau DMiAU i apelio yn erbyn cyfnod dilysrwydd y drwydded a ddyfernir. O ganlyniad, bydd QAA yn diweddaru ei chanllaw '*Trefn Apelio ar gyfer Asiantaethau Dilysu Mynediad i Addysg Uwch*' i ymdrin â sefyllfa o'r fath, gan sicrhau bod y gweithdrefnau'n cyfateb â 'Threfn Apelio Gyfunol' QAA.

45 Mae Adran 7 y ddogfen hon yn ymwneud â threfniadau pontio ac yn nodi ein dull arfaethedig o weithredu trwyddedau am gyfnod penodol ar gyfer yr Asiantaethau DMiAU presennol. Mae QAA yn bwriadu cynhyrchu canllaw ynglŷn ag ail-drwyddedu a fydd yn disgrifio'r broses o wneud cais am adnewyddu trwydded sy'n berthnasol i Asiantaethau DMiAU, a'r elfennau hynny o'r Cytundeb Trwyddedu a'r Amodau y bydd QAA yn asesu yn eu herbyn i benderfynu ar gais o'r fath.

**Cwestiwn 2: Ydych chi eisiau rhoi unrhyw sylwadau am gynnig QAA i newid i weithredu ar sail trwydded cyfnod penodol, lle bydd yn rhaid i Asiantaeth DMiAU wneud cais eto ar ôl y cyfnod hwnnw i gadw ei thrwydded?**

## Y ffioedd sy'n daladwy gan Asiantaethau DMiAU i QAA

46 Ym mis Ebrill 2024, aethom ati i lansio ymgynghoriad ar y trefniadau ffioedd i Asiantaethau DMiAU, gan gynnig newid i'r ffordd y mae QAA yn cyfrifo'r Ffioedd Blynyddol penodol a godir ar Asiantaethau DMiAU. Roedd yr ymgynghoriad hwn hefyd yn egluro ein dull o godi ffioedd monitro/ymchwilio a chostau partneriaeth.

47 Nid oedd ein hymgynghoriad ar drefniadau ffioedd ar gyfer Asiantaethau DMiAU yn ymwneud â'r ffi i sefydliadau sy'n gwneud cais am drwydded Asiantaeth DMiAU. Ar hyn o bryd, y ffi i sefydliadau sy'n gwneud cais am drwydded Asiantaeth DMiAU yw £32,500. Byddwn yn ail-adolygu'r gost hon pan fyddwn yn llunio trefniadau newydd ar gyfer gwneud cais am fod yn Asiantaeth DMiAU. Am fod y rhan fwyaf o gostau QAA yn gostau staffio, byddem yn disgwyl i'r gost hon wedyn fod yn atebol i ragor o newidiadau blynyddol, yn unol â chynnydd chwyddiant fel arfer. Nid ydym yn bwriadu cyflwyno ffi i Asiantaethau DMiAU sy'n gwneud cais am drwydded.

# 3 Yr Amodau Mynediad i Addysg Uwch

48 Mae 118 o Feini Prawf Trwyddedu yn ein Cynllun Cydnabod presennol y mae'n rhaid i Asiantaethau DMiAU gydymffurfio â nhw, yn ogystal â gofynion y Cytundeb Trwyddedu a gofynion trefniadau sydd wedi eu nodi ym Manyleb y Diploma, y Cynllun Graddio a, lle bo'n berthnasol, y Disgrifwyr Pwnc. Mae'r 118 maen prawf hyn yn ymwneud ag amrywiaeth eang o bynciau - o ganlyniad, maen nhw'n gwahaniaethu o ran eu manylion a pha mor benodol ydynt. Rydym wedi ystyried a ddylem ni gynnig addasiadau i'r meini prawf hyn er mwyn eu diweddaru nhw ond, yn ein barn ni, er mwyn sicrhau bod y trefniadau'n addas i'w diben ar gyfer y dyfodol, ac er mwyn ymdrin ag unrhyw heriau neu broblemau a welwn ar hyn o bryd yng ngweithrediad y Cynllun Cydnabod, byddai'n ddymunol, ac mae hefyd yn ofynnol, ein bod yn cyflwyno newid mwy sylweddol. Ein rheswm am hyn yw bod gwneud newidiadau i'r trefniadau'n debygol o fod yr un mor gymhleth, os nad yn fwy cymhleth, na rhoi cyfres gyfan o amodau newydd ar waith. Yn ein barn ni, drwy agor yr holl drefniadau ar gyfer ymgynghoriad yn y ffordd hon, bydd gan randdeiliaid fwy o gyfle i ystyried yr agweddau sylweddol o'n gofynion rheoleiddiol, yn hytrach na dim ond ystyried y meysydd hynny sy'n newid. Rydym yn obeithiol bod hyn yn symleiddio'r broses o ystyried y newidiadau arfaethedig hyn ac ymateb i'r ymgynghoriad.

49 Mae'r amodau newydd arfaethedig i'w gweld yn Atodiad A. Ar ôl yr ymgynghoriad, rydym yn disgwyl y byddwn yn cadarnhau y dylid mabwysiadu'r amodau hyn, neu amodau wedi'u haddasu. Yn ogystal, rydym yn bwriadu cyhoeddi canllawiau rheoleiddiol newydd i Asiantaethau DMiAU i helpu i ddehongli gofynion pob amod (bydd yr adborth a roddir i ni yn rhan o'r ymgynghoriad hwn yn dylanwadu ar gynnwys y canllawiau hyn). Ar gyfer rhai amodau penodol, rydym yn rhagweld y byddwn yn cynnwys rhestr nad yw'n gynhwysfawr o ymddygiadau enghreifftiol a allai ddangos cydymffurfiad a diffyg cydymffurfiad â'r amod penodol.

50 Yn naturiol, bydd rhywfaint o'r meini prawf presennol yn trosglwyddo i'r amodau newydd. Ond, wrth wneud hynny, rydym wedi ystyried y ffaith bod angen i ni sicrhau y gallwn gymryd camau gweithredu os byddwn yn teimlo nad yw unrhyw faterion yn ymwneud â'r Diploma'n gweithio fel y dylent. Felly, ceir newid ffocws mewn rhai achosion er mwyn sicrhau bod y trefniadau a'r gweithgareddau y mae gofyn i Asiantaethau DMiAU eu gweithredu'n gweithio'n effeithiol, yn ogystal â sicrhau'n syml bod y trefniadau yn eu lle.

51 Mewn perthynas â Meini Prawf Trwyddedu 1 i 3, rydym o'r farn bod y rhain yn nodi'r gofynion hynny mewn perthynas â hunaniaeth, cyfansoddiad a threfnau llywodraethu'r sefydliad sy'n hanfodol bwysig er mwyn iddo ddod yn Asiantaeth DMiAU. Felly, rydym wedi symud y gofynion hyn i'r Cytundeb Trwyddedu. Mae fersiwn ddiwygiedig o'r Cytundeb Trwyddedu yn Atodiad B.

52 Credwn fod y Meini Prawf Trwyddedu cyfredol yn cynrychioli dull rheoleiddio ar sail rheolau. Yn gyffredinol, wrth lunio'r amodau newydd, rydym wedi ceisio symud i ffwrdd oddi wrth y dull rheoleiddio hwn. Ar y cyfan, mae'r amodau newydd wedi eu llunio yn bennaf ar sail egwyddorion a chanlyniadau. Yn ymarferol felly, er bod rhai amodau o hyd sy'n nodi'r rheolau y mae'n rhaid eu cyflawni, mae eraill yn disgrifio safonau mwy cyffredinol y mae'n rhaid i Asiantaethau DMiAU lynu atynt wrth weithredu. Yn ei gwaith o asesu cydymffurfiad yr Asiantaeth DMiAU â'r amodau hyn sydd wedi eu seilio ar egwyddorion, bydd QAA yn canolbwyntio ar y canlyniadau y mae'r Asiantaeth DMiAU yn eu cyflawni mewn perthynas â phob amod.

53 Nod y dull hwn yw sicrhau bod y Diploma Mynediad i AU yn cael ei reoleiddio'n effeithiol, gan gydnabod yr amrywiaeth yn nulliau a strwythurau trefniadaethol yr Asiantaethau DMiAU unigol, ac amrywiol amgylchiadau'r darparwyr sydd efallai eisiau darparu'r Diploma i fyfyrwyr. Mae hyn yn caniatáu i Asiantaethau DMiAU fodloni gofynion yr amodau mewn ffyrdd amrywiol ac arloesol sy'n cyfateb orau â'r sefydliad a'i amgylchiadau. Yn rhan o'r broses o weithredu'r trefniadau newydd hyn, mae QAA wedi ei hymrwymo i'w dull o ymgysylltu ag Asiantaethau

DMiAU mewn ffordd a fydd yn cefnogi Asiantaethau DMiAU i deimlo'n hyderus y bydd unrhyw weithgareddau arloesi y maen nhw'n dymuno eu gwneud yn cydymffurfio â'r rheoliadau.

54 Mae'r fframwaith rheoleiddio sy'n tanategu'r Amodau'n cael ei lywio gan egwyddorion ein dull rheoleiddio. Dyma'r egwyddorion hyn:

54.1 **Cynnal dilysrwydd y Diploma Mynediad i AU**

Rydym yn rheoleiddio'r Diploma Mynediad i AU er budd y dysgwyr sy'n astudio i ennill y cymhwyster er mwyn sicrhau bod pob cwrs a ddarperir sy'n arwain at gymhwyster Mynediad i AU yn cynnal y safonau cyffredinol a osodir gennym, bod ansawdd yn cael ei sicrhau, a bod cynnwys y cwrs a'r dull o'i ddarparu'n addas i'r diben.

54.2 **Cefnogi myfyrwyr i symud ymlaen i addysg uwch ac i lwyddo yn y maes hwn**

Nod ein dull rheoleiddio yw sicrhau bod y dysgwyr sy'n cwblhau'r cymhwyster yn cael y cyfle i sicrhau lle ar gwrs addysg uwch ac i lwyddo yn eu hastudiaethau ar y cwrs.

54.3 **Sicrhau bod y cymhwyster yn parhau'n berthnasol a chefnogi ei dyfiant**

Mae'r egwyddor hon yn alinio â strategaeth ehangach QAA, yn benodol, yn benodol ein ffocws ar sicrhau safonau academaidd a gwerth y cymwysterau.

55 Ystyriwn y dylai'r Amodau gael eu cyflwyno[2] mewn ffordd sy'n ddealladwy i randdeiliaid sydd â phrofiad o weithio gyda chymwysterau rheoleiddiedig. Rydym yn awyddus i ddeall a ydy hynny'n wir, felly byddem yn gwir groesawu sylwadau gan ymatebwyr i ddweud a ydyn nhw'n teimlo y gallent elwa o gael mwy o eglurhad, yn ogystal ag unrhyw sylwadau eraill sydd ganddynt.

56 Wrth ymateb i'r ymgynghoriad, byddai'n ddefnyddiol petai'r ymatebwyr yn nodi a yw eu sylwadau'n berthnasol i amod penodol (er enghraifft, A1) neu i'r grŵp cyfan o amodau (er enghraifft, A).

**Cwestiwn 3: Ydych chi eisiau rhoi unrhyw sylwadau am yr Amodau Mynediad i Addysg Uwch yr ydym yn bwriadu eu gweithredu yn rhan o'r Cynllun Cydnabod diwygiedig?**

[2] Un eithriad posibl i'r datganiad hwn yw cynhwysiad amod sy'n gofyn i'r Asiantaeth DMiAU lunio 'datganiad strategol'. Sonnir am hyn ymhellach isod yn yr adran am drefniadau monitro.

# 4 Y trefniadau monitro

## Y trefniadau monitro presennol

57 O dan y Cynllun Cydnabod presennol, mae QAA yn gwneud pedwar math o weithgaredd monitro, fel a ganlyn:

57.1 **Proses adolygu gylchol** - gweithgareddau monitro wedi'u hamserlennu, a wneir ar amser a benderfynir o flaen llaw a hynny i bob Asiantaeth DMiAU ar yr un pryd.

57.2 **Adolygiad sy'n ystyried risgiau** - gweithgareddau monitro mewn ymateb i risg penodol a ganfuwyd, a wneir ar unrhyw adeg, i un neu fwy o Asiantaethau DMiAU penodol.

57.3 **Casglu gwybodaeth** - gweithgareddau monitro i gasglu gwybodaeth er mwyn hysbysu gwaith QAA o reoleiddio'r Diploma Mynediad i AU. Gwneir y rhain ar unrhyw adeg, i un neu fwy o Asiantaethau DMiAU penodol.

57.4 **Ymchwiliad** - gweithgareddau monitro a wneir lle canfyddir achosion gwirioneddol neu bosibl o ddiffyg cydymffurfiad â'r Meini Prawf Trwyddedu neu'r Cytundeb Trwyddedu mewn Asiantaeth DMiAU. Gwneir y gweithgareddau monitro ar unrhyw adeg, ar sail canlyniadau gweithgareddau monitro eraill, ac maent yn berthnasol i un neu fwy o Asiantaethau DMiAU penodol.

58 Nod y gweithgareddau monitro hyn yw cynnig cyfle i Asiantaethau DMiAU roi tystiolaeth i QAA i ddangos eu bod yn parhau i weithredu yn unol â thelerau eu trwydded Asiantaeth DMiAU a gofynion y Meini Prawf Trwyddedu. Ar sail y dystiolaeth a roddir ganddynt, mae QAA yn asesu pob Asiantaeth DMiAU i benderfynu faint yw ei chydymffurfiad a'i lefel o risg cysylltiedig.

59 Mae QAA yn cadw cofrestr o risgiau ar gyfer pob Asiantaeth DMiAU oedd ar gael i'r cyhoedd ym mhroffiliau'r Asiantaethau DMiAU ar wefan QAA hyd yn ddiweddar. Mae ein dull o benderfynu sgorau risg wedi ei nodi mewn nifer o ganllawiau QAA, ond nid yw'n hawdd i'r cyhoedd gael gafael ar rai ohonynt. Yn ein barn ni, mae'n hanfodol bwysig bod gwybodaeth ar gael i'r rhanddeiliaid am y broses o benderfynu sgorau risg i'w helpu i ddeall ystyr a goblygiad y sgôr hwnnw. Felly, rydym wedi dileu'r sgôr risg o broffil pob Asiantaeth DMiAU ar wefan QAA tra byddwn ni, yn rhan o'r ymgynghoriad hwn, yn ystyried ffyrdd o gynyddu eglurder ynglŷn â'r broses o benderfynu ar lefel y risg sy'n gysylltiedig â phob Asiantaeth DMiAU.

## Y trefniadau monitro arfaethedig

60 Rydym yn bwriadu ailstrwythuro ein gweithgareddau monitro mewn dwy lefel benodol - trefniadau monitro lefel gyffredinol a threfniadau monitro ac ymgysylltu lefel uwch. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn gallu monitro Asiantaethau DMiAU yn effeithiol ac ymateb yn gymesur os byddwn yn canfod achosion gwirioneddol neu bosibl o ddiffyg cydymffurfiad â thelerau'r Cytundeb Trwyddedu a/neu'r Amodau.

### Y trefniadau monitro lefel gyffredinol

61 Bydd trefniadau monitro lefel gyffredinol yn berthnasol i bob Asiantaeth DMiAU, a byddant yn cynnwys proses adolygu gylchol, digwyddiadau hysbysadwy a'r broses o gasglu unrhyw wybodaeth arall. Mae rhagor o fanylion wedi eu nodi isod am bob un o'r meysydd hyn.

## Y broses adolygu gylchol

62 Yn ôl y trefniadau monitro presennol, bydd y broses adolygu gylchol yn cynnwys gweithgareddau monitro wedi'u hamserlennu, a wneir ar amser a benderfynir o flaen llaw a hynny i bob Asiantaeth DMiAU ar yr un adeg. Mae rhagor o wybodaeth i'w gweld am ofynion y broses adolygu gylchol mewn canllawiau y bydd QAA yn eu diweddaru o bryd i'w gilydd, ond bydd y gofynion hyn yn cynnwys darparu data am y myfyrwyr, er mwyn galluogi i QAA asesu amrywiol ddulliau o fesur perfformiad Asiantaeth DMiAU, datganiadau am hyfywedd ariannol, datganiad blynyddol am gydymffurfiad a datganiad strategol.

63 Darparu datganiad strategol yw un o'r gofynion newydd sy'n rhan o'r gofynion ehangach ynglŷn ag atebolrwydd sydd wedi eu nodi yn Amod A2 yr Amodau Mynediad i AU. Bydd gofyn i bob Asiantaeth DMiAU lunio datganiad strategol, a gymeradwyir gan QAA, am ei rôl fel Asiantaeth DMiAU. O dan Faen Prawf Trwyddedu 11, mae gofyniad i Asiantaethau DMiAU sicrhau bod rhanddeiliaid penodol yn cymryd rhan weithredol mewn cyrff llywodraethu penodol. Rydym o'r farn y byddai'r dull hwn yn creu baich ychwanegol sylweddol (er enghraifft, drwy'r gofyniad am gael corff dynodedig penodol o fewn y strwythur llywodraethu sy'n gyfrifol am faterion Mynediad i AU). O ganlyniad, mae ein cynnig i ofyn am ddatganiad strategol, sy'n cael ei oruchwylio gan y corff uchaf yn strwythur llywodraethu'r sefydliad, yn ceisio mynd i'r afael â hyn.

64 Rydym o'r farn bod nod penodol y Diploma Mynediad i AU (fel y mae wedi ei nodi uchod yn y ddogfen hon) yn bwysig; felly, mae gofyn ei ddiogelu - h.y. sicrhau y bydd yn cael ei gyflawni; a'i hyrwyddo - h.y. sicrhau bod pawb yn ei ddeall a bod rhanddeiliaid yn deall ffocws penodol y Diploma Mynediad i AU.

65 Mae dylanwad sylweddol gan Asiantaethau DMiAU dros y ffordd y mae pobl yn deall ac amgyffred y Diploma Mynediad i AU. Felly, rydym yn ei hystyried yn briodol parhau i osod rhyw fath o ofyniad i'r Asiantaeth DMiAU fyfyrio ar ei gweithrediadau a'i nodau mewn perthynas â'r ffordd y mae'n cefnogi mynediad i addysg uwch. Yn ein barn ni, mae datganiad strategol cyfnodol y gellir ei gyhoeddi, sy'n disgrifio'r ffordd y bydd yr Asiantaeth DMiAU yn cyfrannu at y tirlun Mynediad i AU cyffredinol, yn hanfodol er mwyn parhau i wahaniaethu rhwng y Diploma Mynediad i AU a chymwysterau eraill.

66 Yn ôl ein cynigion, mae'n rhaid i bob Asiantaeth DMiAU baratoi a chyflwyno datganiad strategol i QAA ei gymeradwyo:

66.1 pryd bynnag y bydd yr Asiantaeth DMiAU yn gwneud cais neu y bydd gofyn iddi wneud cais am gael ei hail-drwyddedu fel Asiantaeth DMiAU

66.2 ar unrhyw adeg arall pan fydd yr Asiantaeth DMiAU yn gwneud unrhyw benderfyniad a allai effeithio ar gynnwys neu gywirdeb Datganiad Strategol sydd wedi ei gymeradwyo'n barod, neu

66.3 ar unrhyw adeg benodol ar gais ysgrifenedig gan QAA i'r Asiantaeth DMiAU.

67 Dylai'r datganiad strategol gynnwys esboniad o nodau, amcanion ac adnoddau'r Asiantaeth DMiAU mewn perthynas â'r Diploma, a dylai alinio â nod ehangach y Diploma, fel y mae wedi ei nodi yn adran 1 yr ymgynghoriad hwn. Dylai'r datganiad strategol ymwneud â chyfnod trwyddedu cyfan Asiantaeth DMiAU. Rydym yn bwriadu cynhyrchu arweiniad ar wahân am y datganiad strategol unwaith y bydd yr ymgynghoriad hwn wedi dod i ben.

## Digwyddiadau hysbysadwy

68 Fel y mae wedi ei nodi yn Amod B1, mae gofyn i bob Asiantaeth DMiAU roi gwybod i QAA am unrhyw ddigwyddiad hysbysadwy sydd, yn ei barn resymol hi, wedi digwydd, neu'n debygol o ddigwydd. Digwyddiad hysbysadwy yw unrhyw ddigwyddiad gwirioneddol neu

bosibl sydd, ym marn resymol QAA, yn cael, neu a allai gael, effaith negyddol ar allu'r Asiantaeth DMiAU i fodloni telerau ei Chytundeb Trwyddedu neu i gydymffurfio â'r Amodau.

69 Byddwn yn rhoi rhagor o wybodaeth mewn canllawiau ar wahân am y mathau o ddigwyddiadau a allai fod yn ddigwyddiad hysbysadwy, y mathau o ddigwyddiadau a fydd yn ddigwyddiadau hysbysadwy bob amser, a'r amseriad sy'n ofynnol ar gyfer rhoi gwybod, a pha wybodaeth ddylai fod ar gael gan yr Asiantaeth DMiAU.

**Gwybodaeth arall**

70 Mae hon yn cynnwys unrhyw wybodaeth y mae QAA yn ei derbyn drwy weithredu ei Chynllun Pryderon ar gyfer Mynediad i AU, neu unrhyw wybodaeth arall y mae QAA yn dod yn ymwybodol ohoni, sy'n ei harwain at ddod i'r casgliad nad yw un o'r Asiantaethau DMiAU o bosib yn cydymffurfio â'r Amodau.

## Trefniadau monitro ac ymgysylltu lefel uwch

71 Defnyddir trefniadau monitro ac ymgysylltu lefel uwch lle canfyddir, drwy drefniadau monitro lefel gyffredinol, bod diffyg cydymffurfiad neu risg uwch o ddiffyg cydymffurfiad posibl â thelerau'r Cytundeb Trwyddedu a/neu'r Amodau. Yn rhan o'r trefniadau hyn, bydd QAA yn gwneud ymchwiliad i'r Asiantaeth(au) DMiAU dan sylw. Mae rhagor o fanylion isod.

**Ymchwiliad**

72 Gallai QAA benderfynu cychwyn ymchwiliad:

72.1 lle canfyddir risg uwch o ddiffyg cydymffurfiad posibl â'r Cytundeb Trwyddedu neu un neu fwy o'r Amodau, neu

72.2 lle canfyddir achosion gwirioneddol o ddiffyg cydymffurfiad â'r Amodau neu'r Cytundeb Trwyddedu.

73 Os bydd QAA yn penderfynu cychwyn ymchwiliad i'r mater, mae'n debygol y bydd y penderfyniad hwn wedi ei seilio ar ganlyniadau gweithgareddau monitro eraill. Mae modd gwneud ymchwiliadau ar unrhyw adeg i un neu fwy o Asiantaethau DMiAU penodol.

74 Rydym yn bwriadu cynhyrchu arweiniad pellach am y trefniadau monitro arfaethedig unwaith y bydd yr ymgynghoriad hwn wedi dod i ben.

## Sgorau risg yr Asiantaethau DMiAU

75 Wrth i ni drosglwyddo i'r gofynion rheoleiddiol newydd, fel y maen nhw wedi eu nodi yn yr Amodau a thelerau'r Cytundeb Trwyddedu, rydym yn cynnig ein bod yn mynd yn ôl at y drefn o ddarparu copi cyhoeddus o sgôr risg pob Asiantaeth DMiAU. Fel y mae wedi ei nodi yn adran 2 yr ymgynghoriad hwn, o ganlyniad i'r newidiadau a gynigir yn y ddogfen hon, bydd angen i QAA wneud ymarfer ail-drwyddedu ar gyfer pob un o'r Asiantaethau DMiAU presennol. Yn ôl ein cynigion, ar ôl cwblhau'r ymarfer ail-drwyddedu hwn, byddwn yn cyhoeddi sgorau risg yr Asiantaethau DMiAU ym mhroffiliau'r Asiantaethau DMiAU ar wefan QAA.

76 I gyd-fynd â hynny, byddwn yn cyhoeddi canllawiau clir am ein dull o benderfynu ar sgorau risg, ac unrhyw oblygiadau i'r sgorau eu hunain. Os bydd QAA yn ei ystyried yn briodol, byddwn yn cynnwys esboniad o'r rhesymau dros y sgôr ac, os byddwn wedi gofyn i'r Asiantaeth DMiAU gymryd camau i leihau'r risgiau, byddwn yn nodi manylion y camau hyn. Rydym yn bwriadu defnyddio ein dull cyffredinol o ganfod risgiau dim ond os bydd:

(a) yr Asiantaeth DMiAU yn cael ei hymchwilio mewn perthynas ag Amodau penodol

(b) QAA wedi penderfynu bod trefniadau monitro ac ymgysylltu lefel uwch yn berthnasol i'r Asiantaeth DMiAU.

77 Hefyd, rydym yn cynnig ein bod yn symud i ffwrdd oddi wrth y diffiniadau cyffredinol o risg isel, canolig ac uchel, ac yn hytrach ein bod yn sicrhau bod y diffiniad yn egluro'r meysydd gweithredu penodol (fel y maent yn berthnasol i'r Amodau) y mae'r sgôr risg yn gysylltiedig â nhw).

78 Os byddwn yn gorfodi unrhyw rai o'r ymyriadau rheoleiddio sydd wedi eu nodi isod, byddwn yn nodi manylion yr ymyriad hwn ym mhroffil yr Asiantaeth DMiAU ar wefan QAA, heblaw pan fyddwn yn ystyried bod hynny'n amhriodol. Bydd hyn yn cynnwys rhoi esboniad o'r rhesymau am wneud yr ymyriad, ac am y camau gweithredu y mae gofyn i'r Asiantaeth DMiAU eu cymryd.

79 Ar y cyfan, rydym o'r farn y bydd y dull hwn o sgorio risgiau'n rhoi mwy o eglurder i'r rhanddeiliaid a dylai osgoi rhywfaint o'r risg posibl ar y pryd y gallai pobl gamddeall ein sgorau risg.

## Ymyriadau rheoleiddio

80 Rydym yn cydnabod y bydd amgylchiadau'n codi o bryd i'w gilydd na fydd cyfres safonol o amodau rheoleiddiol yn gallu ymdrin yn ddigonol â nhw. Mae hyn yn gallu bod yn beth heriol i ni fynd i'r afael ag o ar hyn o bryd, oherwydd os na fydd yr Asiantaeth DMiAU yn cydymffurfio â'r Meini Prawf Trwyddedu neu'r Cytundeb Trwyddedu, hyd yn oed os byddai'n bosibl unioni'r diffyg cydymffurfiad, y camau gweithredu rheoleiddiol safonol yn ôl y fframwaith cyhoeddedig yw ystyried tynnu'r drwydded yn ei hôl. Rydym yn ymwybodol bod hyn yn debygol o fod yn ymateb rhy gryf dan lawer o amgylchiadau, ac efallai y byddai'n fwy priodol cael cyfres fwy graddedig o ymyriadau a fyddai'n galluogi i ni ofyn i Asiantaethau DMiAU gymryd camau i fynd i'r afael â'r problemau heb y bygythiad hwn o golli'r drwydded ar unwaith.

81 Rydym yn cynnig ein bod yn gweithredu'r ymyriadau rheoleiddio a ganlyn yn rhan o'r Cynllun Cydnabod: hysbysiad ffurfiol, gorfodi amod benodol neu orfodi sancsiwn ffurfiol. Mae rhagor o fanylion isod am bob un o'r ymyriadau hyn.

### Hysbysiad ffurfiol

82 Gallai QAA gyflwyno hysbysiad ffurfiol i'r Asiantaeth DMiAU os bydd yn teimlo bod angen i'r Asiantaeth DMiAU leihau risg uwch o ddiffyg cydymffurfiad â thelerau'r Cytundeb Trwyddedu a/neu'r Amodau, neu os bydd QAA o'r farn y bydd achos o dorri'r Amodau'n cael ei unioni gan yr Asiantaeth DMiAU wedi iddi dderbyn hysbysiad o'r fath, ac nad oes angen ymyriadau neu sancsiynau eraill. Bydd yr hysbysiad hwn yn gofyn i'r Asiantaeth DMiAU gymryd camau gweithredu penodol i leihau'r risg o ddiffyg cydymffurfiad, ac efallai y bydd yn gofyn i'r camau hyn gael eu cymeradwyo gan QAA cyn eu gweithredu. Os na fydd yr Asiantaeth DMiAU yn cydymffurfio â hysbysiad ffurfiol, mae'n debygol y bydd hyn yn arwain at ymyriad pellach.

### Gorfodi unrhyw amod penodol

83 Gallai QAA benderfynu gorfodi amod penodol ar un o'r Asiantaethau DMiAU os bydd QAA o'r farn bod yr Asiantaeth DMiAU yn cyflwyno risg penodol nad yw wedi ei gynnwys yn yr Amodau; er mwyn lleihau risg uwch o ddiffyg cydymffurfiad â thelerau'r Cytundeb Trwyddedu a/neu'r Amodau; neu er mwyn lleihau effeithiau achosion gwirioneddol o ddiffyg cydymffurfiad â thelerau'r Cytundeb Trwyddedu a/neu'r Amodau. Bydd yr amod penodol wedi ei dargedu er mwyn lleihau'r risg penodol sydd wedi codi a gallai gynnwys gweithgareddau y mae QAA yn gofyn i'r Asiantaeth DMiAU eu cyflawni neu y mae'n ei gwahardd rhag eu cyflawni, er mwyn sicrhau bod telerau'r Cytundeb Trwyddedu a/neu'r Amodau'n cael eu bodloni.

**Gorfodi sancsiynau ffurfiol**

84 Gallai QAA benderfynu cyfyngu ar rannau o drwydded yr Asiantaeth DMiAU neu eu hatal dros dro, neu, os bydd y risgiau i'r myfyrwyr, y rhanddeiliaid neu'r cymhwyster mor sylweddol, gallai QAA benderfynu tynnu trwydded yr Asiantaeth DMiAU yn ei hôl. Mae rhagor o fanylion wedi eu nodi isod am bob un o'r sancsiynau hyn:

84.1 Cyfyngiadau ar drwydded Asiantaeth DMiAU - os bydd yr Asiantaeth DMiAU yn methu cydymffurfio â thelerau'r Cytundeb Trwyddedu a/neu'r Amodau, gallai QAA benderfynu rhoi cyfyngiadau dros dro ar ei thrwydded i leihau risgiau i'r myfyrwyr, y rhanddeiliaid neu'r cymhwyster.

84.2 Atal trwydded Asiantaeth DMiAU dros dro - os bydd yr Asiantaeth DMiAU yn methu cydymffurfio â thelerau'r Cytundeb Trwyddedu a/neu'r Amodau, gallai QAA benderfynu atal ei thrwydded dros dro (neu atal rhai elfennau o'i thrwydded) i leihau'r effaith ar y myfyrwyr, y rhanddeiliaid neu'r cymhwyster ar unwaith. Bydd disgwyl i'r Asiantaeth DMiAU gymryd camau unioni yn ystod yr ataliad, a fydd yn cael eu gorfodi drwy amod penodol, a bydd yr ataliad yn cael ei dynnu unwaith y bydd y diffyg cydymffurfiad wedi ei leihau a'i ddatrys yn briodol.

84.3 Tynnu trwydded Asiantaeth DMiAU yn ei hôl - os bydd y risgiau i'r myfyrwyr neu randdeiliaid eraill mor sylweddol fel na fyddai defnyddio sancsiynau eraill yn ateb digonol, gallai QAA benderfynu tynnu'r drwydded Asiantaeth DMiAU yn ei hôl. Fel arfer, byddai QAA yn bwriadu tynnu'r drwydded Asiantaeth DMiAU yn ei hôl dim ond:

- os bydd QAA wedi atal trwydded Asiantaeth DMiAU dros dro o'r blaen mewn ymateb i ddiffyg cydymffurfiad â thelerau'r Cytundeb Trwyddedu a/neu'r Amodau ac mae achos arall wedi codi o ddiffyg cydymffurfiad â'r un telerau neu delerau eraill sy'n rhan o'r Cytundeb Trwyddedu a/neu'r Amodau.
- os bydd QAA yn barnu bod achos o ddiffyg cydymffurfiad â thelerau'r Cytundeb Trwyddedu a/neu'r Amodau ac na fyddai atal neu gyfyngu ar drwydded yr Asiantaeth DMiAU yn ddigonol i fynd i'r afael â'r diffyg cydymffurfiad.

85 Rydym yn bwriadu cynhyrchu arweiniad pellach am yr ymyriadau rheoleiddio arfaethedig unwaith y bydd yr ymgynghoriad hwn wedi dod i ben.

## Gweithredu camau monitro a rheoleiddio

86 Bydd QAA yn defnyddio ei threfniadau monitro lefel gyffredinol i ganfod meysydd lle mae risg o ddiffyg cydymffurfiad â thelerau'r Cytundeb Trwyddedu a/neu'r Amodau, ac, felly, lle bydd angen defnyddio trefniadau monitro lefel uwch efallai. Pan mae trefniadau monitro lefel gyffredinol yn awgrymu bod angen adolygiad pellach, gallai QAA geisio defnyddio'r trefniadau monitro lefel uwch sydd ar gael iddi. Bydd QAA yn blaenoriaethu ymgysylltu â'r Asiantaeth DMiAU i geisio cael rhagor o wybodaeth i'w defnyddio i benderfynu a oes yma ddiffyg cydymffurfiad neu a oes risg o ddiffyg cydymffurfiad.

87 Os bydd QAA yn penderfynu bod angen gwneud ymyriad rheoleiddio, bydd yn defnyddio gwybodaeth a gasglwyd drwy ei gweithgareddau monitro i'w helpu i benderfynu sut fath o ymyriad i'w ddefnyddio. Bydd QAA yn gwneud yn siŵr bod ei hymateb yn gymesur â'r risg y mae'n ceisio ei leihau, ac yn berthnasol iddo. Bydd QAA yn dilyn arferion rheoleiddio gorau drwy sicrhau bod ei harferion:

87.1 wedi eu blaenoriaethu - h.y. yn canolbwyntio ar faterion sy'n peri risgiau i'r myfyrwyr, y rhanddeiliaid neu'r cymhwyster.

87.2 yn gymesur - h.y. yn cymryd camau sy'n gymesur â lefel risg a llymder yr achos o ddiffyg cydymffurfiad a chymryd i ystyriaeth y camau a gymerir gan yr Asiantaeth DMiAU i leihau risgiau a'r effeithiau ar y myfyrwyr.

87.3 wedi eu targedu - h.y. yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r risgiau arbennig sy'n codi.

87.4 yn eglur - bydd QAA yn esbonio'n glir i'r Asiantaeth DMiAU beth yw'r broses o wneud ymyriad, gan gynnwys y camau gweithredu y mae'n bwriadu eu cymryd a'r rhesymau dros wneud hynny. Lle bo'n briodol, bydd QAA yn cynnwys manylion yr ymyriad rheoleiddio ym mhroffil yr Asiantaeth DMiAU ar wefan QAA. Bydd hyn yn cynnwys rhoi esboniad o'r rhesymau am wneud yr ymyriad, ac am y camau gweithredu y mae gofyn i'r Asiantaeth DMiAU eu cymryd.

87.5 yn atebol - bydd QAA yn atebol am y penderfyniadau a wneir ganddi, ac am eu hesbonio i'r Asiantaethau DMiAU perthnasol, a rhanddeiliaid eraill, fel y bo'n briodol.

**Y cyd-destun rheoleiddiol a gwneud penderfyniadau mewn ffordd atebol**

88 Fel y mae wedi ei nodi yn y cyflwyniad i'r ymgynghoriad hwn, mae QAA wedi bod yn gyfrifol am reoleiddio'r Diploma Mynediad i AU ers 1997 pan drosglwyddwyd swyddogaethau'r Cyngor Ansawdd Addysg Uwch iddi. Mae nodau elusennol QAA yn cynnwys rhoi cyngor i'r llywodraethau, os gofynnir amdano, ynglŷn â chydnabyddiaeth i gyrsiau Mynediad i AU. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu mai dim ond y cyrsiau hynny sy'n atebol i'n trefniadau rheoleiddio fydd yn cael eu cydnabod gan y llywodraethau at ddibenion sicrhau cyllid (lle bo'n berthnasol). Hefyd, rydym yn diogelu'r cymhwyster drwy gofrestru a chadw nifer o nodau masnach. Mae'r swyddogaethau a'r amcanion hyn yn ffurfio'r sylfaen i gwmpas awdurdod QAA wrth reoleiddio'r Diploma Mynediad AU.

89 Defnyddir y trefniadau monitro ac ymgysylltu lefel uwch a'r ymyriadau rheoleiddio yn unol â gofynion trefniadau llywodraethu mewnol QAA ei hun.

90 Os bydd QAA yn ceisio gorfodi'r sancsiynau ffurfiol o dynnu trwydded yr Asiantaeth DMiAU yn ei hôl, bydd y Pwyllgor Rheoleiddio a Thrwyddedu Mynediad i AU yn gyfrifol am wneud argymhellion i Fwrdd QAA.

91 Os bydd QAA yn gorfodi Asiantaeth DMiAU i dderbyn monitro manylach ac ymgysylltiad lefel uwch, neu os bydd eisiau rhoi unrhyw hysbysiadau ffurfiol, amodau penodol neu sancsiynau ffurfiol nad yw'n cynnwys tynnu trwydded yr Asiantaeth DMiAU yn ei hôl, bydd yr awdurdod perthnasol i wneud penderfyniadau gan y Rheolwr Diploma Mynediad i AU, aelod perthnasol o Uwch Dîm Rheoli QAA, neu aelod arall o Dîm Gweithredol QAA, yn ôl Cynllun Dirprwyo QAA.

**Cwestiwn 4: Ydych chi eisiau rhoi unrhyw sylwadau am y trefniadau monitro yr ydym yn bwriadu eu gweithredu yn rhan o'r Cynllun Cydnabod diwygiedig?**

# 5 Manyleb y Diploma a'r Cynllun Graddio

92 Fel y mae wedi ei nodi yn adran 1 yr ymgynghoriad hwn, nid ydym yn bwriadu gwneud unrhyw newidiadau sylweddol i'r gofynion sydd wedi eu nodi ym Manyleb y Diploma a'r Cynllun Graddio. Yn hytrach, rydym wedi ceisio ailstrwythuro a symleiddio'r ffordd yr ydym yn disgrifio gofynion rheoleiddiol y Cynllun Cydnabod ledled y Dogfennau Rheoleiddiol perthnasol.

93 Er enghraifft, symudwyd y gofynion o ran cofrestru myfyrwyr - sydd wedi eu nodi ym Manyleb y Diploma ar hyn o bryd - i'r Amodau. Hefyd, rydym wedi ceisio diffinio gofynion tanategol Manyleb y Diploma a'r Cynllun Graddio'n fwy eglur yn yr Amodau. Er enghraifft, yn 'Adran D: Datblygu Diplomâu Mynediad i AU', 'Adran E: Gosod, darparu a safoni asesiadau' ac 'Adran F: Dyfarnu'r cymhwyster', rydym wedi diffinio'n fwy eglur beth yw'r gofynion i Asiantaethau DMiAU o ran sicrhau eu bod yn gweithio yn unol â Manyleb y Diploma a'r Cynllun Graddio.

94 Unwaith y bydd yr ymgynghoriad wedi dod i ben a'r Amodau wedi eu llunio'n derfynol, rydym yn bwriadu gwneud diweddariadau bach i Fanyleb y Diploma a'r Cynllun Graddio i sicrhau bod y gyfres o ddogfennau'n alinio â'r Amodau newydd a'r gofynion sy'n tanategu'r Cynllun Cydnabod.

**Cwestiwn 5: Oes gennych chi unrhyw sylwadau neu bryderon am yr effaith y bydd y newidiadau arfaethedig i'r Cynllun Cydnabod yn ei chael ar ofynion Manyleb y Diploma neu'r Cynllun Graddio wrth eu gweithredu?**

# 6 Y Diploma Mynediad i AU Rhyngwladol

95 Mae QAA wedi ei hymrwymo i archwilio'r ffordd orau o lansio'r Diploma Mynediad i AU ('Diploma MiAU') Rhyngwladol, ac rydym yn bwriadu alinio'r gweithgareddau hyn ag un o brif feysydd ffocws ein strategaeth gyhoeddedig - *"Ehangu ein gweithgarwch rhyngwladol, gan fanteisio ar enw da rhagorol QAA ac addysg uwch y DU drwy'r byd i gyd mewn meysydd newydd er budd addysg drydyddol y DU"*. Ym misoedd olaf 2021 neu fisoedd cynnar 2022, gwnaethpwyd gwaith datblygu gan QAA oedd yn canolbwyntio ar ffordd bosibl o lansio a datblygu'r Diploma MiAU Rhyngwladol. Yn hydref 2022, aethom ati i rannu dull gyda'r Asiantaethau DMiAU oedd wedi ei seilio ar yr un seilwaith rheoleiddio â'r trefniadau ar gyfer y DU. Fodd bynnag, am y rhesymau sydd wedi eu nodi eisoes yn yr ymgynghoriad hwn, gwelsom y byddem yn debygol o fod angen blaenoriaethu gwneud newidiadau i'r trefniadau hyn, felly gohiriwyd y gwaith o ddatblygu'r Diploma MiAU Rhyngwladol. Ar ôl seibiant o chwe mis, aeth QAA ati i ymgysylltu eto â'r Asiantaethau DMiAU yn haf 2023 er mwyn ceisio deall eu rhesymau'n well am fod eisiau lansio'r Diploma MiAU Rhyngwladol, gan gynnwys canfod yn iawn pa farchnadoedd yr oeddent yn bwriadu eu targedu, a demograffeg y myfyrwyr yr oeddent yn rhagweld y byddai'r Diploma hwn ar eu cyfer.

96 Ar sail y gwaith hwn, rydym wedi datblygu'r cynigion cychwynnol a ganlyn am y Diploma MiAU Rhyngwladol.

## Diffiniad o'r Diploma MiAU Rhyngwladol

97 Ein cynnig yw y bydd y Diploma MiAU Rhyngwladol yn gymhwyster:

97.1 y DU ar lefel 3 sydd â 60 credyd

97.2 sy'n berthnasol i faes astudio penodol

97.3 a addysgir ac a asesir drwy gyfrwng y Saesneg

97.4 a ddatblygir ac a reoleiddir gan QAA.

## Nod y Diploma MiAU Rhyngwladol

98 Prif nod y Diploma MiAU Rhyngwladol yw rhoi cyfle i fyfyrwyr rhyngwladol fynd i mewn i addysg uwch. Ystyr 'addysg uwch' yn y fan yma yw addysg a ddarperir ar lefel sy'n gyfatebol â lefel 4 y *Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch Cyrff Dyfarnu Graddau yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddo*n (FHEQ) neu lefel 7 *Fframwaith Credydau a Chymwysterau'r Alban* (SCQF), waeth ymhle y mae'r myfyriwr yn bwriadu ceisio mynd i mewn i addysg uwch, naill ai yn y DU neu mewn gwlad arall.[3] Cynigiwn y byddai nod y Diploma MiAU Rhyngwladol wedi ei ddiffinio mewn modd a fyddai'n alinio â nod wedi'i ddiweddaru'r Diploma i'r DU fel y mae wedi ei nodi yn adran 1 yr ymgynghoriad hwn:

98.1 Mae'r Diploma Mynediad i AU Rhyngwladol yn gymhwyster lefel 3 (sy'n gyfatebol â Lefelau A a Lefelau T yn Lloegr), ac mae'n canolbwyntio'n bennaf ar ddysgwyr rhyngwladol sy'n oedolion ac sydd eisiau mynd i mewn i addysg uwch ond nad ydynt yn meddu ar y cymwysterau angenrheidiol yn y maes academaidd y maent eisiau astudio ynddo. Mae modd cwblhau cyrsiau Mynediad i AU llawn amser o fewn blwyddyn. Ar ôl cwblhau eu cwrs Diploma

[3] Yn rhan o'r cynigion hyn, nid yw QAA yn bwriadu bod yn rhan o drefniadau derbyn darparwyr addysg uwch ledled y byd. Felly, bydd raid i'r Asiantaethau DMiAU, a'r darparwyr y maent eisiau gweithio â nhw, geisio sicrhau, yn rhan o'u cynlluniau credadwy ar gyfer gweithredu yn y gwledydd hynny, bod llwybrau cynnydd priodol ar gael i'w myfyrwyr gan ddarparwyr a fydd yn derbyn y Diploma MiAU Rhyngwladol.

Mynediad i AU Rhyngwladol, gallai'r myfyrwyr symud ymlaen i astudio ar lefel uwch mewn darparwr addysg uwch, a gallai'r astudiaeth hon fod ar gyfer gradd neu gymhwyster lefel uwch arall ar lefel 4 y FHEQ neu'n uwch (neu lefel gyfatebol).

99 Yn ymarferol, rydym o'r farn y bydd demograffeg y myfyrwyr sy'n addas ar gyfer y Diploma MiAU Rhyngwladol yn cynnwys y canlynol:

99.1 myfyrwyr sy'n 17 oed neu'n hŷn nad ydynt wedi gweld bod astudiaeth gyfatebol â Lefel A yn addas iddyn nhw, ond yr ystyriwyd bod ganddynt y gallu i fynd i'r brifysgol

99.2 y rheiny sy'n 24 oed neu'n hŷn ac sy'n dymuno ailhyfforddi a dilyn llwybr gyrfaol arall

99.3 y rheiny sy'n 24 oed neu'n hŷn ac sy'n dymuno datblygu eu gyrfa ymhellach ond sydd angen cymhwyster addysg uwch i wneud hynny.

## Trwyddedu a rheoleiddio

### Cynigion ynglŷn â thrwyddedu

100 Rydym wedi datblygu dau gynnig ar gyfer dyfarnu trwydded Diploma MiAU Rhyngwladol i Asiantaethau DMiAU:

**Opsiwn 1**

100.1 Dyfarnu trwydded i Asiantaeth DMiAU unigol ar gyfer gwlad benodol wedi i'r Asiantaeth DMiAU ddangos bod ganddi gynllun credadwy ar gyfer gweithredu yn y wlad honno.

**Opsiwn 2**

100.2 Dyfarnu trwydded i Asiantaeth DMiAU unigol sy'n caniatáu iddi weithredu mewn mwy nag un wlad wedi i'r Asiantaeth DMiAU ddangos bod ganddi gynllun credadwy ar gyfer gweithredu yn y gwledydd hynny.

Byddai'n well gennym y cynnig yn opsiwn 1.

**Cwestiwn 6: Mewn perthynas â'r cynigion ynglŷn â thrwyddedu, ydych chi'n cytuno y dylem weithredu opsiwn 1 uchod? Os nad, pa ddull arall fyddech chi'n ei awgrymu?**

### Cynigion ynglŷn â rheoleiddio

101 Yn ôl ein cynigion, bydd rhannau cyfansoddol y Cynllun Cydnabod - fel y mae wedi ei nodi yn adran 1 yr ymgynghoriad hwn - yn berthnasol i bob Asiantaeth DMiAU sydd eisiau gwneud cais am drwydded MiAU Rhyngwladol, ac eithrio'r rhannau a ganlyn:

101.1 Y Trefniadau Trwyddedu - y 'Trefniadau Trwyddedu Rhyngwladol', fel y maent wedi eu cynnig uchod (paragraff 100), fydd yn berthnasol.

101.2 Yr Amodau Mynediad i AU - yr 'Amodau Mynediad i AU Rhyngwladol' ('Amodau Rhyngwladol') fydd yn berthnasol. Disgwylir y bydd yr Amodau Rhyngwladol yn cynnwys y rhan fwyaf o'r gofynion sydd wedi eu nodi yn yr Amodau Mynediad i AU, ynghyd â rhai gofynion ychwanegol sydd wedi eu nodi isod.

**Gofynion o ran y Saesneg**

102 Rydym yn cynnig y gofynion a ganlyn o ran y Saesneg ar gyfer y Diploma MiAU Rhyngwladol:

102.1 Pan fydd myfyriwr yn cael ei gofrestru ar gwrs Diploma MiAU Rhyngwladol, mae'n rhaid i'r Asiantaeth DMiAU sicrhau bod gallu a phriodoldeb cyffredinol y myfyriwr i fynd i mewn i'r cwrs wedi cael eu hasesu. Yn benodol, mae'n rhaid i'r Asiantaeth DMiAU sicrhau bod y myfyrwyr yn meddu ar sgiliau digonol yn y Saesneg i'w galluogi i gwblhau'r cwrs. Gellir cynnig addysg ychwanegol mewn Saesneg fel cwrs ar wahân ochr yn ochr â'r Diploma, ond ni ddylai fod yn rhan o'r unedau a ddilysir.

102.2 Pan fyddant wedi cwblhau eu cwrs, dylai'r myfyrwyr allu dangos gallu yn y Saesneg sy'n gydradd â lefel B2 Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop ar gyfer Ieithoedd. Mae hyn yn gyfatebol â gofyniad y Swyddfa Gartref i noddwyr myfyrwyr sydd eisiau mynd i mewn i addysg uwch yn Lloegr i astudio ar lefel gradd. (Nid ydym wedi gosod y gofyniad hwn ar y lefel B1 is, sef gofyniad y Swyddfa Gartref i fyfyrwyr sy'n mynd i mewn i gyrsiau sy'n is na lefel gradd, oherwydd mae ein gwaith ymchwil yn dangos bod myfyrwyr fwyaf tebygol o ddefnyddio'r cymhwyster i astudio ar lefel gradd, ac y dylent felly fod wedi eu paratoi at lefel B2 er mwyn bod yn ddigon parod.)

### Diploma

103 Rydym yn bwriadu cynnwys Amod sy'n gofyn i Asiantaethau DMiAU weithredu un Diploma fesul maes astudio ym mhob gwlad. Y rheswm am hynny yw er mwyn sicrhau ein bod yn osgoi unrhyw anghysondeb mewn gwlad benodol ac y gallwn ddarparu sicrwydd i asiantaethau a llywodraethau yn y marchnadoedd rhyngwladol perthnasol. Rydym yn derbyn y bydd hyn yn cyfyngu ar allu'r Asiantaeth DMiAU i ddatblygu gwahanol Ddiplomâu i wahanol ddarparwyr; ond, credwn y bydd unrhyw anfantais a ddaw o hyn wedi'i oresgyn gan y budd a ddaw o sicrhau fod pob myfyriwr mewn gwlad benodol yn cael cwricwlwm cyson.

104 Rydym yn bwriadu cynnwys Amod sy'n gofyn i Asiantaethau DMiAU lunio a gweithredu gweithdrefnau i sicrhau bod y cymhwyster yn parhau i fod yn gydradd â chymhwyster lefel 3 yn Lloegr, lle bynnag y mae'n cael ei ddarparu ledled y byd.

### Dysgu ac addysgu

105 Yn ôl ein cynigion, dylid darparu'r Diploma MiAU Rhyngwladol drwy ddull dysgu cyfunol sy'n defnyddio 'amrywiol ddulliau o ddarparu dysgu drwy gyfuno rhyngweithio wyneb yn wyneb[4] â gweithgareddau ar-lein'[5], a ddarperir gan ddarparwyr lleol. Ni fydd yn dderbyniol darparu'r Diploma MiAU Rhyngwladol yn gyfan gwbl ar-lein.

### Nodau masnach

106 Rydym yn bwriadu cofrestru nod masnach rhyngwladol ar gyfer y logo, y nod adnabod a'r nodau geiriau Mynediad i AU. Bydd hyn yn galluogi i'r logo, y nod adnabod a'r nodau geiriau weithredu fel marc gweledol rhyngwladol i adnabod cymwysterau Mynediad i AU a gymeradwywyd o dan delerau'r Cynllun Cydnabod. Bydd gofyn i Asiantaethau DMiAU ddefnyddio'r nodau masnach yn unol â'r gofynion sydd wedi eu nodi yn yr Amodau Rhyngwladol a bod â gweithdrefnau yn eu lle i sicrhau bod eu darparwyr hefyd yn defnyddio'r nodau masnach rhyngwladol yn ôl y gofynion rheoleiddiol.

---

[4] Mae dulliau wyneb yn wyneb yn cynnwys presenoldeb corfforol y myfyrwyr a'u hathrawon yn yr un gofod dysgu (megis gofod a gynigir gan ddarparwr), yn ogystal â defnyddio cyfryngau gwe-gynadledda i gynnwys myfyrwyr sy'n dysgu o bell mewn amgylcheddau dysgu wyneb yn wyneb ar-lein, neu fyfyrwyr sy'n gweithio gyda'i gilydd ar-lein mewn gweithgareddau datrys problemau / gweithgareddau grŵp. Gallai'r dulliau amrywio yn dibynnu ar y myfyriwr unigol ac ar faes astudio'r Diploma MiAU Rhyngwladol (er enghraifft, os bydd angen gwneud gwaith ymarferol).

[5] www.advance-he.ac.uk/knowledge-hub/blended-learning-0

## Cyfnod peilot

107 Rydym yn bwriadu defnyddio cyfnod peilot i lansio'r Diploma MiAU Rhyngwladol. Bydd y cyfnod peilot hwn ddim ond ar gyfer y sefydliadau hynny sydd â thrwydded Asiantaeth DMiAU ar gyfer y Diploma Mynediad i AU i'r DU yn barod. Rydym yn rhagweld y bydd gofyn i bob Asiantaeth DMiAU wneud cais am drwydded am gyfnod penodol sy'n cynnwys y cyfnod peilot hwn. Ar ôl cwblhau'r cyfnod peilot yn llwyddiannus, efallai y bydd yr Asiantaeth DMiAU yn gymwys i wneud cais am estyniad i'w Thrwydded Ryngwladol.

**Cwestiwn 7: Ydych chi eisiau rhoi unrhyw sylwadau am y cynigion yr ydym wedi eu disgrifio ar gyfer y Diploma Mynediad i AU Rhyngwladol?**

# 7 Trefniadau pontio a gweithredu

108 Fel y mae wedi ei nodi yn y cyflwyniad, bydd yr ymgynghoriad hwn yn agored am 12 wythnos a bydd yn cau ar 22 Awst 2024. Ar ôl cau'r ymgynghoriad, byddwn yn ystyried yr ymatebion i gyd. Yna byddwn yn gwneud newidiadau i'n cynigion os byddwn yn ystyried bod rheswm clir i wneud hynny.

109 Rydym yn bwriadu argymell i Fwrdd QAA eu bod yn mabwysiadu'r Cynllun Cydnabod wedi ei ddiweddaru ar sail fersiwn terfynol ein cynigion, rywbryd ym mis Mawrth 2025, gyda'r bwriad o weithredu'r Cynllun Cydnabod wedi ei ddiweddaru mewn da bryd cyn i flwyddyn academaidd 2025-26 ddechrau.

110 Yn rhan o'r broses o weithredu'r Cynllun Cydnabod wedi ei ddiweddaru, byddwn yn gwneud ymarfer ail-drwyddedu ar gyfer pob un o'r Asiantaethau DMiAU presennol; bydd hyn yn galluogi i ni drosglwyddo'n effeithiol i drwyddedau am gyfnod penodol cyn i flwyddyn academaidd 2025-26 ddechrau.

111 Unwaith y byddwn wedi derbyn cymeradwyaeth Bwrdd QAA i fabwysiadu'r Cynllun Cydnabod wedi ei ddiweddaru, byddwn yn cyhoeddi'r Dogfennau Rheoleiddiol diwygiedig sy'n rhan o'r Cynllun Cydnabod wedi ei ddiweddaru, ochr yn ochr â chanllawiau i Asiantaethau DMiAU am y broses ail-drwyddedu. Cyn cyhoeddi'r canllaw hwn (oddeutu mis Chwefror 2025), byddwn yn cynnal digwyddiad briffio i Brif Weithredwr pob Asiantaeth DMiAU i amlinellu'r broses ail-drwyddedu cyn cyhoeddi'r ymgynghoriad.

112 Rydym yn bwriadu gwahodd yr Asiantaethau DMiAU ym mis Mai 2025 i gyflwyno gwybodaeth sy'n berthnasol i'r broses ail-drwyddedu; yna byddwn yn gwneud asesiadau ail-drwyddedu ym misoedd Mehefin a Gorffennaf, ac ym mis Awst 2025 bydd y trwyddedau a ddyfernir am gyfnod penodol yn cael eu cadarnhau.

113 Rhagwelwn mai'r cyfle cynharaf i gynnal cyfnod peilot ar gyfer y Diploma Mynediad i AU Rhyngwladol fydd yn ystod blwyddyn academaidd 2025-26.

**Cwestiwn 8: Ydych chi eisiau rhoi unrhyw sylwadau am y dull o weithredu a gynigir ar gyfer y Cynllun Cydnabod wedi ei ddiweddaru?**

**Cwestiwn 9: Ydych chi eisiau rhoi unrhyw sylwadau am y cyfnod peilot arfaethedig ar gyfer y Diploma Mynediad i AU Rhyngwladol?**

# Atodiad A: Yr Amodau Mynediad i Addysg Uwch

## Cyflwyniad

1 Mae'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA) yn gyfrifol am reoleiddio'r Diploma Mynediad i Addysg Uwch (AU). Mae Cynllun Cydnabod QAA ar gyfer Mynediad i AU ('y Cynllun Cydnabod') yn darparu'r fframwaith rheoleiddio y mae QAA yn ei ddefnyddio i gyflawni'r cyfrifoldeb hwn. O dan y fframwaith hwn, mae QAA yn trwyddedu sefydliadau i ddatblygu, dilysu, cymeradwyo a dyfarnu Diplomâu Mynediad i AU. Yr enw a roddir ar sefydliad sydd wedi ei drwyddedu gan QAA at y dibenion hyn yw Asiantaeth Dilysu Mynediad i Addysg Uwch ('Asiantaeth DMiAU').

2 Gellir rhannu'r Cynllun Cydnabod i'r pum maes a ganlyn:

2.1 **Y Trefniadau Trwyddedu:** Dyma'r trefniadau sydd gan QAA i reoli'r broses o drwyddedu Asiantaethau DMiAU. Maent yn nodi'r gofynion ar gyfer dod yn Asiantaeth DMiAU ('y Cytundeb Trwyddedu') a chynnal trwydded Asiantaeth DMiAU.

2.2 **Yr Amodau Mynediad i AU:** Dyma'r amodau y mae'n rhaid i Asiantaeth DMiAU barhau i'w bodloni wedi iddi lwyddo i gael ei thrwydded Asiantaeth DMiAU. Mae'n rhaid i sefydliad sydd eisiau dod yn Asiantaeth DMiAU ddangos sut mae'n bodloni, neu sut y gallai fodloni, nifer o'r amodau hyn.

2.3 **Y trefniadau monitro:** Dyma'r trefniadau monitro y mae QAA yn eu defnyddio i benderfynu a yw Asiantaeth DMiAU yn bodloni gofynion y Cynllun Cydnabod. Mae hyn hefyd yn cynnwys gwybodaeth am y dulliau y gallai QAA eu defnyddio os bydd ganddi bryderon am gydymffurfiad yr Asiantaeth DMiAU â gofynion y Cynllun Cydnabod.

2.4 **Y gofynion o ran y cymhwyster:** Mae'r gofynion hyn wedi eu nodi ym Manyleb y Diploma, y Cynllun Graddio a'r Disgrifwyr Pwnc. Mae Manyleb y Diploma a'r Cynllun Graddio'n nodi gofynion QAA o ran cynllunio, darparu, asesu a dyfarnu'r Diploma. Mae'r Disgrifwyr Pwnc yn nodi'r gofynion cynnwys ar gyfer y meysydd astudio unigol. Gyda'i gilydd, mae'r gofynion hyn o ran y cymhwyster yn sicrhau bod y cymhwyster yn gyson, a'i fod yn gyson ar draws yr Asiantaethau DMiAU.

2.5 **Canllawiau:** O bryd i'w gilydd, bydd QAA yn cynhyrchu canllawiau sy'n rhoi rhagor o esboniad a manylion ynglŷn â sut y bydd elfennau penodol o'r Cynllun Cydnabod yn gweithredu neu'n cael eu rhoi ar waith gan QAA.

3 Mae'r ddogfen hon yn nodi'r Amodau Mynediad i AU ('yr Amodau') - sef yr amodau rheoleiddiol y mae'n rhaid i Asiantaeth DMiAU barhau i'w bodloni wedi iddi lwyddo i gael ei thrwydded Asiantaeth DMiAU. Mae'r amodau hyn wedi eu llunio yn bennaf ar sail egwyddorion a chanlyniadau. Yn ymarferol felly, er bod rhai amodau sy'n nodi'r rheolau y mae'n rhaid eu cyflawni, mae eraill yn disgrifio safonau mwy cyffredinol y mae'n rhaid i Asiantaethau DMiAU lynu atynt wrth weithredu. Yn ei gwaith o asesu cydymffurfiad yr Asiantaeth DMiAU â'r egwyddorion a'r amodau hyn, bydd QAA yn canolbwyntio ar y canlyniadau y mae'r Asiantaeth DMiAU yn eu cyflawni mewn perthynas â phob amod.

4 Nod y dull hwn yw sicrhau bod y Diploma Mynediad i AU yn cael ei reoleiddio'n effeithiol, gan gydnabod yr amrywiaeth yn nulliau a strwythurau trefniadaethol yr Asiantaethau DMiAU unigol, ac amrywiol amgylchiadau'r darparwyr sydd efallai eisiau darparu'r Diploma i fyfyrwyr. Mae hyn yn caniatáu i Asiantaethau DMiAU fodloni gofynion yr amodau mewn ffyrdd amrywiol ac arloesol sy'n cyfateb orau â'r sefydliad a'i amgylchiadau.

5 Mae'r fframwaith rheoleiddio sy'n tanategu'r Amodau'n cael ei lywio gan egwyddorion ein dull rheoleiddio. Dyma'r egwyddorion hyn:

**Cynnal dilysrwydd y Diploma Mynediad i AU**

5.1 Rydym yn rheoleiddio'r Diploma Mynediad i AU er budd y dysgwyr sy'n astudio i ennill y cymhwyster er mwyn sicrhau bod pob cwrs a ddarperir sy'n arwain at gymhwyster Mynediad i AU yn cynnal y safonau cyffredinol a osodir gennym, bod ansawdd yn cael ei sicrhau, a bod cynnwys y cwrs a'r dull o'i ddarparu'n addas i'r diben.

**Cefnogi myfyrwyr i symud ymlaen i addysg uwch ac i lwyddo yn y maes hwn**

5.2 Nod ein dull rheoleiddio yw sicrhau bod y dysgwyr sy'n cwblhau'r cymhwyster yn cael y cyfle i sicrhau lle ar gwrs addysg uwch ac i lwyddo yn eu hastudiaethau ar y cwrs.

**Sicrhau bod y cymhwyster yn parhau'n berthnasol a chefnogi ei dyfiant**

5.3 Mae'r egwyddor hon yn alinio â strategaeth ehangach QAA, yn benodol ein ffocws ar sicrhau safonau academaidd a gwerth y cymwysterau.

## Diffiniadau o dermau allweddol

**Diploma Mynediad i AU**

Mae Diploma Mynediad i AU yn gymhwyster lefel 3 llawn, sydd wedi ei lunio i baratoi'r dysgwyr ar gyfer astudio ym maes addysg uwch. Rhoddir diffiniad i bob Diploma unigol ar wahân: mae teitl y Diploma penodol yn adlewyrchu'r maes astudio y mae'n canolbwyntio arno a dangosir y deilliannau dysgu sy'n ofynnol ar gyfer pob Diploma yn yr unedau asesu sydd wedi eu nodi yn ei reolau cyfuno. Defnyddir y term mewn perthynas â'r cymhwyster ei hun ac â'r deilliannau dysgu gofynnol sy'n arwain at ei ddyfarniad. (Mae rhagor o fanylion ym *'Manyleb y Diploma Mynediad i Addysg Uwch'*.) Gall Diploma gael ei ddarparu gan un neu fwy o ddarparwyr.

**Cwrs Mynediad i AU**

Cwrs Mynediad i AU yw Diploma Mynediad i AU penodol sydd wedi ei gymeradwyo i gael ei ddarparu gan ddarparwr penodol ac sydd wedi ei restru ar gronfa ddata QAA o gyrsiau Mynediad i AU. Felly, mae cwrs yn unigryw i ddarparwr penodol, hyd yn oed os bydd y gofynion ar gyfer y Diploma yr un fath â'r rhai sydd ar un neu fwy o gyrsiau eraill.

# Rhan 1: Yr Asiantaeth DMiAU

## Adran A: Trefnau rheoli, llywodraethu a strategaeth

### Amod A1: Trefniadau llywodraethu

6 Mae'n rhaid i Asiantaeth DMiAU gael a chynnal strwythurau llywodraethu sy'n gyfrifol am sicrhau ei bod yn cyflawni ei chyfrifoldebau'n effeithiol am y canlynol:

6.1 y Cytundeb Trwyddedu i Asiantaethau DMiAU

6.2 yr Amodau Mynediad i Addysg Uwch

6.3 Manyleb y Diploma

6.4 y Cynllun Graddio

6.5 y Disgrifwyr Pwnc (lle bo'n berthnasol), ac

6.6 unrhyw ofynion eraill y gallai QAA eu gorfodi ar yr Asiantaeth DMiAU o bryd i'w gilydd yn unol â'r Cynllun Cydnabod.

### Amod A2: Atebolrwydd

7 Mae gan y corff uchaf yn strwythur llywodraethu'r Asiantaeth DMiAU y cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau ei bod yn cydymffurfio â phob un o ofynion y Cynllun Cydnabod a'i bod yn cyflawni ei chyfrifoldebau fel Asiantaeth DMiAU. Mae gan y corff hwn gyfrifoldeb uniongyrchol, **na cheir** ei ddirprwyo, am gymeradwyo'r canlynol yn ffurfiol:

7.1 y datganiad am gydymffurfiad y mae'r Asiantaeth DMiAU yn ei gyflwyno i QAA yn flynyddol.

Mae gan gorff uchaf yr Asiantaeth DMiAU hefyd y cyfrifoldebau a ganlyn am gymeradwyo ffurfiol, ond **gallent** gael eu dirprwyo i gorff neu berson arall:

7.2 cymeradwyo unrhyw gyflwyniad ysgrifenedig yn ffurfiol y gofynnir amdano gan QAA ar gyfer y broses o fonitro Asiantaethau DMiAU

7.3 rhoi cymeradwyaeth ffurfiol i ddatganiadau ffurfiol a gyflwynir i QAA am y ffordd y mae'r Asiantaeth DMiAU wedi bodloni'r gofynion ar gyfer cael ei hail-drwyddedu fel Asiantaeth DMiAU, neu unrhyw ymholiadau eraill a wneir yn ffurfiol gan QAA am gydymffurfiad yr Asiantaeth DMiAU â'r Amodau Mynediad i Addysg Uwch, a

7.4 cymeradwyo datganiad strategol yr Asiantaeth DMiAU ar gyfer Mynediad i AU yn ffurfiol.

8 Mae'n rhaid i'r corff uchaf hefyd sicrhau bod y cyfrifoldebau a ganlyn yn cael eu cyflawni yn yr Asiantaeth DMiAU:

8.1 rhoi cymeradwyaeth (neu ei thynnu yn ei hôl) i ddarparwyr Mynediad i AU, Diplomâu a chyrsiau Mynediad i AU

8.2 sicrhau ansawdd a safonau cyrsiau Diploma Mynediad i AU

8.3 ymchwilio darparwyr Mynediad i AU os canfyddir achosion gwirioneddol neu bosibl o ddiffyg cydymffurfiad â gofynion y Cynllun Cydnabod (gan gynnwys os bydd QAA yn gofyn iddynt wneud hynny)

8.4 gweithredu cynllun cwyno ac apelio ar gyfer ymdrin â chwynion myfyrwyr a darparwyr

8.5 gweithdrefnau ar gyfer dyfarnu ac ardystio Diplomâu Mynediad i AU, a

8.6 lledaenu canlyniadau prosesau monitro QAA a phrosesau'r Asiantaeth DMiAU ei hun, a'u defnyddio i wella darpariaeth Mynediad i AU yr Asiantaeth DMiAU.

**A2.1 - Swyddog Cyfrifol**

*Penodi Swyddog Cyfrifol*

9 Mae'n rhaid i'r corff uchaf yn strwythur llywodraethu'r Asiantaeth DMiAU enwebu uwch swyddog i QAA i weithredu fel ei Swyddog Cyfrifol.

Mae **Swyddog Cyfrifol** yn golygu uwch swyddog yn yr Asiantaeth DMiAU, a byddai'r Prif Weithredwr neu swyddog cyfatebol yn cymryd y rôl hon fel arfer. Byddai Swyddog Cyfrifol nad yw'n swyddog uchaf yn yr Asiantaeth DMiAU yn dderbyniol i QAA os oes rheswm da dros ddewis y swyddog hwn - er enghraifft, os oes gan yr Asiantaeth DMiAU nifer o weithgareddau nad ydynt oll yn gysylltiedig â Mynediad i AU, ac y mae'n uwch swyddog nad yw'n brif weithredwr ond sy'n gyfrifol am weithgareddau Mynediad i AU.

10 Mae'n rhaid i'r Asiantaeth DMiAU roi gwybod i QAA o fewn dau ddiwrnod gwaith os bydd yn enwebu Swyddog Cyfrifol newydd.

*Rôl y Swyddog Cyfrifol*

11 Bydd y Swyddog Cyfrifol yn gweithredu fel y prif gyswllt rheoleiddiol rhwng yr Asiantaeth DMiAU a QAA mewn perthynas â'r holl weithgareddau a wneir gan yr Asiantaeth DMiAU yn unol â'r Cynllun Cydnabod.

12 Yn arbennig, bydd y Swyddog Cyfrifol yn gyfrifol am y canlynol:

12.1 rhoi datganiadau i QAA (heblaw'r rheiny y mae QAA yn gofyn i gorff uchaf yr Asiantaeth DMiAU eu rhoi) y gall QAA ddibynnu arnynt fel rhai cywir ac a roddir ar ran yr Asiantaeth DMiAU

12.2 os bydd QAA yn cyflwyno i'r Swyddog Cyfrifol unrhyw ddatganiad, cais neu hysbysiad sydd wedi ei gyfeirio at yr Asiantaeth DMiAU, rhaid i'r Swyddog Cyfrifol sicrhau bod QAA yn gallu gweithredu'n hyderus ar sail y ffaith bod yr Asiantaeth DMiAU wedi derbyn y datganiad, cais neu hysbysiad hwn.

**A2.2 - Datganiad Strategol**

13 Mae'n rhaid i bob Asiantaeth DMiAU fod â Datganiad Strategol am ei rôl fel Asiantaeth DMiAU, wedi ei gymeradwyo gan QAA. Wrth baratoi ei Datganiad Strategol, mae'n rhaid i'r Asiantaeth DMiAU sicrhau bod y canlynol wedi cyfrannu at gynnwys ei Datganiad:

13.1 darparwyr y Diploma Mynediad i AU, a

13.2 darparwyr addysg uwch yn y DU.

14 Mae'n rhaid paratoi Datganiad Strategol mewn fformat a ffordd sy'n dilyn unrhyw ganllawiau a nodir gan QAA (a allai gael eu diweddaru o bryd i'w gilydd), ac mae'n rhaid cyflwyno'r Datganiad i QAA ei gymeradwyo:

14.1 pryd bynnag y bydd yr Asiantaeth DMiAU yn gwneud cais neu y bydd gofyn iddi wneud cais am gael ei hail-drwyddedu fel Asiantaeth DMiAU

14.2 ar unrhyw adeg arall pan fydd yr Asiantaeth DMiAU yn gwneud unrhyw benderfyniad a allai effeithio ar gynnwys neu gywirdeb Datganiad Strategol sydd wedi ei gymeradwyo'n barod, neu

14.3 ar unrhyw adeg benodol ar gais ysgrifenedig gan QAA i'r Asiantaeth DMiAU.

#### A2.3 - Datganiad Blynyddol am Gydymffurfiad

15 Mae'n rhaid i bob Asiantaeth DMiAU roi datganiad blynyddol am gydymffurfiad i QAA. Rhaid i'r Datganiad Blynyddol am Gydymffurfiad:

15.1 gael ei baratoi yn y fformat ac erbyn y dyddiad cau a osodir gan QAA ar gyfer yr Asiantaeth DMiAU

15.2 fod yn gywir a rhaid iddo gynnwys yr holl wybodaeth berthnasol y gofynnir amdani gan QAA

15.3 gael ei ystyried a'i gymeradwyo gan y corff uchaf yn strwythur llywodraethu'r Asiantaeth DMiAU

15.4 gael ei lofnodi gan y Swyddog Cyfrifol a Chadeirydd y corff uchaf yn strwythur llywodraethu'r Asiantaeth DMiAU.

### Amod A3: Hyfywedd ariannol ac adnoddau

#### A3.1 - Sicrhau'r gallu i ddatblygu a dyfarnu cymwysterau

16 Mae'n rhaid i bob Asiantaeth DMiAU sicrhau bod ganddi, ym marn resymol QAA, ddigon o adnoddau i ddatblygu, dilysu, cymeradwyo a dyfarnu Diplomâu Mynediad i AU.

#### A3.2 - Sicrhau hyfywedd ariannol

17 Mae'n rhaid i bob Asiantaeth DMiAU sicrhau bod ganddi, ym marn resymol QAA, ddigon o gyfleusterau ac adnoddau ariannol i ddatblygu a dyfarnu Diplomâu Mynediad i AU, a rhaid iddi wneud unrhyw weithgareddau cysylltiedig eraill sy'n berthnasol, hyd yr amser hwnnw, o leiaf, pan fydd pob dysgwr sydd wedi ei gofrestru gydag unrhyw un o'r darparwyr ar gwrs Diploma Mynediad i AU a ddilysir gan yr Asiantaeth DMiAU wedi cael cyfle i gwblhau eu cyrsiau yn unol ag arferion safonol yr Asiantaeth DMiAU (gan gynnwys unrhyw gyfleoedd i ailgyflwyno eu gwaith neu i gael ailasesiad o'u gwaith, fel y mae wedi ei nodi yn y *'Cynllun Graddio ar gyfer Mynediad i AU'*).

18 Mae datganiadau ariannol yr Asiantaeth DMiAU yn cael eu craffu'n allanol drwy archwiliad blynyddol llawn gan archwilydd sydd wedi ei restru ar y Gofrestr o Archwilwyr Statudol ac nad yw wedi ymwneud o gwbl â'r gwaith o baratoi cyfrifon a datganiadau ariannol yr Asiantaeth DMiAU.

19 Mae'n rhaid paratoi datganiadau ariannol wedi eu harchwilio ar gyfer pob blwyddyn ar sail Safon Adrodd Ariannol 102, neu'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, fel sy'n berthnasol.

### Amod A4: Canfod a rheoli risgiau

20 Mae gofyn bod gan bob Asiantaeth DMiAU brosesau a chyfryngau rheoli risgiau ar waith sy'n hwyluso gweithgareddau asesu risgiau, a'r gwaith o ddatblygu a, lle bo'n angenrheidiol, weithredu cynlluniau wrth gefn sydd, ym marn resymol QAA, yn diogelu buddiannau'r myfyrwyr os bydd busnes yr Asiantaeth DMiAU neu fusnes un o'i darparwyr cymeradwy'n methu, ac os bydd y gymeradwyaeth i'r darparwr neu'r cwrs yn cael ei thynnu yn ei hôl.

21 Mae'n rhaid i bob Asiantaeth DMiAU ddarparu, o fewn pum diwrnod gwaith, y wybodaeth am ei gweithgareddau asesu risgiau y gofynnir amdani gan QAA.

## Amod A5: Cwyno ac apelio

22 Mae Asiantaeth DMiAU yn gyfrifol am sicrhau bod ei chynllun cwyno ac apelio'n cael ei ddilyn wrth weithredu. Dylid disgrifio'r broses o ymdrin â chwynion ac apeliadau mewn dogfennaeth a gyhoeddir sydd ar gael i'r myfyrwyr ac i'r darparwyr. Dylai'r dogfennau hyn sicrhau:

22.1 bod y wybodaeth a roddir i'r rheiny sy'n cwyno neu'n apelio'n nodi'n glir beth yw'r broses y bydd yr Asiantaeth DMiAU yn ei dilyn i ymdrin â'r gŵyn neu'r apêl, gan gynnwys yr amseriadau disgwyliedig ar gyfer ystyried a datrys achosion

22.2 bod yr awdurdod priodol gan yr unigolion sy'n gyfrifol am benderfynu canlyniad y gŵyn neu'r apêl, nad oedd yr unigolion hyn yn gysylltiedig â'r digwyddiad sydd dan sylw yn y gŵyn neu'r apêl, nad oeddent yn gysylltiedig â phenderfynu canlyniad y gŵyn os gwneir apêl wedyn, a'u bod heb unrhyw wrthdaro buddiannau mewn perthynas â'r canlyniad

22.3 bod y broses/prosesau y bydd Asiantaeth DMiAU yn ei/eu dilyn wrth ymdrin â chwynion ac apeliadau'n cydymffurfio ag unrhyw un o ofynion perthnasol pob corff cysylltiedig a phob darpariaeth ddeddfwriaethol gysylltiedig.

## Amod A6: Cydymffurfio â'r gofynion rheoleiddiol

### Amod A6.1 - Y Dogfennau Rheoleiddiol

23 Lle mae Dogfen Reoleiddiol yn gofyn i'r Asiantaeth DMiAU gymryd, neu beidio â chymryd, unrhyw gamau gweithredu, mae'n rhaid i'r Asiantaeth DMiAU gydymffurfio â'r gofyniad hwnnw. Lle mae Dogfen Reoleiddiol yn nodi canllawiau neu egwyddorion o arfer da, mae'n rhaid i bob Asiantaeth DMiAU roi sylw i'r canllawiau neu'r egwyddorion wrth gyflawni ei chyfrifoldebau fel Asiantaeth DMiAU.

24 Mae **Dogfen Reoleiddiol** yn golygu unrhyw un o'r dogfennau a ganlyn sy'n rhan o'r Cynllun Cydnabod:

24.1 y Cytundeb Trwyddedu i Asiantaethau DMiAU

24.2 yr Amodau Mynediad i AU

24.3 y Cynllun Graddio ar gyfer Mynediad i AU

24.4 Manyleb y Diploma Mynediad i AU

24.5 y Disgrifwyr Pwnc ar gyfer Mynediad i AU

24.6 unrhyw ganllawiau sy'n ymwneud â'r Cynllun Cydnabod a gynhyrchir ac a gyhoeddir gan QAA ac a nodir fel Dogfen Reoleiddiol.

25 O bryd i'w gilydd, efallai y bydd QAA yn cyflwyno dogfen i Asiantaeth DMiAU unigol fel math o hysbysiad sy'n gofyn iddi gydymffurfio ag unrhyw un neu bob un o ofynion y Cynllun Cydnabod, neu ag amod penodol, ac/neu weithredu mewn ymateb i dynnu trwydded yr Asiantaeth DMiAU (neu unrhyw elfen o'r drwydded) yn ei hôl neu roi unrhyw gyfyngiadau arni. Rhaid trin unrhyw ddogfen o'r fath fel Dogfen Reoleiddiol y mae'n rhaid cydymffurfio â hi.

### Amod A6.2 - Nodau masnach Mynediad i AU

26 Mae'n rhaid i Asiantaeth DMiAU sicrhau ei bod yn defnyddio'r nodau masnach Mynediad i AU (y logo, y nod adnabod a'r nodau geiriau Mynediad i AU) yn unol â'r gofynion sydd wedi eu nodi yn yr Amodau defnyddio'r nodau masnach Mynediad i AU.

## Amod A7: Cofrestru myfyrwyr

27 Mae pob Asiantaeth DMiAU yn gyfrifol am sicrhau bod myfyrwyr sy'n astudio i ennill unrhyw Ddiploma Mynediad i AU, beth bynnag fo dull eu hastudio, wedi eu:

27.1 cofrestru gydag Asiantaeth DMiAU ar gyfer Diploma Mynediad i AU a gydnabyddir gan QAA cyn pen chwe wythnos (42 diwrnod) ar ôl i'r myfyriwr gychwyn ar y cwrs

27.2 cofrestru ar gyfer unedau o 60 credyd cyn pen 12 wythnos (84 diwrnod) ar ôl dyddiad cychwyn y cwrs Mynediad i AU, neu cyn i'r myfyriwr wneud cais ffurfiol am le ar gwrs addysg uwch - pa un bynnag sy'n digwydd gyntaf

27.3 cofrestru a'u hardystio ar gyfer unedau hyd at uchafswm o 60 credyd

27.4 cofrestru ar gyfer o leiaf un uned o 6 neu 9 credyd yn rhan o'u Diploma; gallai hon fod yn uned raddedig neu anraddedig

27.5 cofrestru ar gyfer uchafswm o 30 credyd a all gynnwys unedau o 6 neu 9 credyd; mae unedau graddedig neu anraddedig o 6 neu 9 credyd yn cyfri tuag at yr uchafswm hwn.

## Adran B: Monitro a darparu gwybodaeth

### Amod B1: Rhoi gwybod i QAA am ddigwyddiadau penodol

28 Mae'n rhaid i bob Asiantaeth DMiAU roi gwybod i QAA am unrhyw ddigwyddiad hysbysadwy sydd, yn ei barn resymol hi, wedi digwydd, neu'n debygol o ddigwydd. Digwyddiad hysbysadwy yw unrhyw ddigwyddiad gwirioneddol neu bosibl sydd, ym marn resymol QAA, yn cael, neu a allai gael, effaith negyddol ar:

28.1 allu'r Asiantaeth DMiAU i fodloni telerau ei Chytundeb Trwyddedu

28.2 allu'r Asiantaeth DMiAU i gydymffurfio â'r Amodau Mynediad i AU, neu

28.3 allu'r Asiantaeth DMiAU i gydymffurfio ag unrhyw un neu bob un o'r gofynion sydd wedi eu nodi yn y Dogfennau Rheoleiddiol, fel y mae wedi ei ddiffinio yn Amod A6.

29 O bryd i'w gilydd, bydd QAA yn rhoi rhagor o wybodaeth mewn canllawiau ar wahân am y mathau o ddigwyddiadau a allai fod yn ddigwyddiad hysbysadwy, y mathau o ddigwyddiadau a fydd yn ddigwyddiadau hysbysadwy bob amser, a'r amseriad sy'n ofynnol ar gyfer rhoi gwybod, a pha wybodaeth ddylai fod ar gael gan yr Asiantaeth DMiAU.

### Amod B2: Hysbysiad i ddarparu gwybodaeth i QAA

30 Os bydd QAA yn anfon hysbysiad ysgrifenedig at Asiantaeth DMiAU i ofyn iddi ddarparu unrhyw wybodaeth i QAA y gofynnir amdani ganddi er mwyn cyflawni unrhyw swyddogaeth mewn perthynas â gweithredu'r Cynllun Cydnabod, mae'n rhaid i'r Asiantaeth DMiAU:

30.1 gydymffurfio â thelerau'r hysbysiad, a

30.2 sicrhau bod yr holl wybodaeth a ddarperir i QAA mewn ymateb i'r hysbysiad yn gywir ac yn gyflawn.

31 Gallai unrhyw hysbysiad o'r fath gynnwys telerau sy'n:

31.1 nodi'r amseriad ar gyfer darparu'r wybodaeth

31.2 nodi'r fformat ar gyfer darparu'r wybodaeth

31.3 nodi'r ffordd y dylid darparu'r wybodaeth

31.4 gofyn bod y wybodaeth y gofynnir amdani'n cael ei hategu gan ddogfennau neu ddata penodol, ac sy'n

31.5 gofyn i'r Asiantaeth DMiAU ddarparu gwybodaeth sydd ganddi'n barod, neu y mae'n rhaid iddi ei nodi neu ei chasglu er mwyn cydymffurfio â'r hysbysiad.

### Amod B3: Monitro Asiantaethau DMiAU gan QAA

32 Bydd pob Asiantaeth DMiAU yn atebol i ofynion gweithgareddau monitro, a bydd disgwyl iddi gydymffurfio â nhw, yn ôl cyfarwyddyd QAA. Wrth adolygu'r wybodaeth a gyflwynir gan yr Asiantaeth DMiAU yn rhan o unrhyw weithgareddau monitro o'r fath, bydd QAA yn barnu a yw'r Asiantaeth DMiAU yn bodloni gofynion y Cynllun Cydnabod ai peidio.

33 Yn rhan o unrhyw weithgareddau monitro o'r fath, mae'n rhaid i bob Asiantaeth DMiAU:

33.1 ddarparu'r wybodaeth y gofynnir amdani gan QAA yn unol â'r amseriad ac yn y ffordd a'r fformat a ragnodir

33.2 gydymffurfio â cheisiadau rhesymol gan QAA i gydweithredu ag unrhyw weithgareddau monitro, yn enwedig, ond nid yn unig, rhoi esboniadau neu ddarparu dogfennau i QAA neu sicrhau bod aelodau o'i staff ar gael i QAA gwrdd â nhw.

34 O bryd i'w gilydd, bydd QAA yn rhoi rhagor o wybodaeth mewn canllawiau ar wahân am amseriadau a gofynion adrodd holl weithgareddau monitro QAA.

### Amod B4: Gofynion o ran cyflwyno gwybodaeth a data

35 Os gofynnir amdano, mae'n rhaid i bob Asiantaeth DMiAU ddarparu data am y myfyrwyr unigol a data am y cyrsiau i QAA, er mwyn helpu QAA i gyflawni unrhyw swyddogaeth mewn perthynas â gweithredu'r Cynllun Cydnabod, a bydd hyn yn cynnwys y canlynol (ond nid yn unig):

35.1 asesu perfformiad Asiantaethau DMiAU o ran cymeradwyo a dilysu Diplomâu Mynediad i AU

35.2 sicrhau bod darpariaeth yn cael ei chynnig i'r holl fyfyrwyr Mynediad i AU sydd, ym marn resymol QAA, o safon uchel (nodir manylion mewn canllawiau o bryd i'w gilydd), ac sydd yn eu cefnogi i gael mynediad i addysg uwch

35.3 deall patrymau yng nghofrestriad, cyflawniad a chynnydd y myfyrwyr.

36 Os gofynnir i Asiantaeth DMiAU gyflwyno unrhyw wybodaeth neu ddata i QAA, bydd yn gyfrifol am sicrhau bod y wybodaeth neu'r data a gyflwynir:

36.1 yn gywir ac yn gyflawn

36.2 yn cael eu darparu erbyn y dyddiad a ragnodir

36.3 yn cael eu darparu yn y ffordd a ragnodir, ac

36.4 yn cael eu darparu yn y fformat a ragnodir.

### Amod B5: Gwaith yr Asiantaeth DMiAU o fonitro ei chofnodion

37 Mae Asiantaeth DMiAU yn gyfrifol am y canlynol:

37.1 cynnal cofnod cyfoes a chyflawn o bob cwrs Diploma Mynediad i AU a gynigir gan ei darparwyr

37.2 sicrhau y cedwir cronfa ddata QAA o gyrsiau Mynediad i AU yn gyfoes yn unol â gofynion QAA, ac y gwneir unrhyw addasiadau angenrheidiol cyn pen pum diwrnod gwaith ar ôl i'r newid ddigwydd, neu ar unwaith os bydd y newid yn ymwneud â thynnu cymeradwyaeth i un o'i darparwyr yn ei hôl

37.3 cynnal a chadw cofnodion cywir o'r graddau, y credydau a'r Diplomâu a ddyfernir ganddi.

38 Bydd disgwyl i'r Asiantaeth DMiAU sicrhau bod ei chofnodion ar gael i'w harchwilio gan QAA os gofynnir amdanynt.

# Rhan 2: Darparwyr a gymeradwyir i ddarparu'r Diploma

## Adran C: Cydnabod darparwyr a chyrsiau

### Amod C1: Cymeradwyo darparwyr

**C1.1 - Y broses gymeradwyo**

39 Mae'n rhaid i bob Asiantaeth DMiAU sefydlu a gweithredu gweithdrefn wedi ei dogfennu ar gyfer cymeradwyo darparwyr i ddarparu Diplomâu Mynediad i AU. Rhaid i'r weithdrefn hon gynnwys gofyniad i bob darparwr a gymeradwyir i ddarparu Diplomâu Mynediad i AU feddu ar y canlynol:

39.1 prif safle sydd yn y DU, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw

39.2 systemau i sicrhau mai dim ond myfyrwyr sydd â chyfeiriad yn y DU (gan gynnwys Swyddfa Bost Lluoedd Arfog Prydain), Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw sy'n cofrestru ar gyfer Diploma Mynediad i AU

39.3 strwythurau llywodraethu sy'n gyfrifol am sicrhau bod ei gyfrifoldebau fel darparwr cymeradwy'n cael eu cyflawni'n effeithiol yn unol â gofynion y Cynllun Cydnabod, a

39.4 threfniadau ar gyfer safoni mewnol, sicrhau cydraddoldeb, monitro a sicrhau ansawdd ar gyfer y ddarpariaeth cyrsiau.

**C1.2 - Gofyniad am gytundeb rhwng yr Asiantaeth DMiAU a'r darparwr**

40 Dylai pob Asiantaeth DMiAU sicrhau bod y trefniadau sydd ganddi gyda'i darparwyr yn cynnwys cytundeb ysgrifenedig y gellir ei orfodi. Dylai'r cytundeb gynnwys darpariaethau sy'n:

40.1 gofyn i'r darparwr ddarparu Diplomâu a chyrsiau Mynediad i AU cydnabyddedig yn unol â'r Cynllun Cydnabod a gweithdrefnau'r Asiantaeth DMiAU ar gyfer safoni, sicrhau cydraddoldeb, monitro a sicrhau ansawdd

40.2 gofyn i'r darparwr farchnata Diplomâu a chyrsiau Mynediad i AU cydnabyddedig mewn ffordd agored ac eglur - gan gynnwys (ond nid yn unig) darparu gwybodaeth am y gofynion mynediad a'r statws cyllido

40.3 disgrifio'r gofynion y mae'n rhaid i'r darparwr gydymffurfio â nhw er mwyn parhau i ddarparu darpariaeth Mynediad i AU

40.4 sefydlu polisi sancsiynau sydd i gael ei weithredu os bydd y darparwr yn methu cydymffurfio â'r gofynion hyn

40.5 gofyn i'r darparwr weithredu gweithdrefn ar gyfer ymdrin ag apeliadau a chwynion er budd y dysgwyr

40.6 nodi unrhyw drefniadau mewn perthynas â chraffu ar safonau asesu'r darparwr y bydd yr Asiantaeth DMiAU yn eu gweithredu, neu a fydd yn cael eu gweithredu ar ei rhan, ac sy'n gofyn i'r darparwr gadw unrhyw ddata y mae'r Asiantaeth DMiAU yn ei ystyried yn angenrheidiol er mwyn galluogi iddi wneud ei gwaith craffu'n effeithiol

40.7 pennu proses sydd i gael ei dilyn os bydd y darparwr yn ymadael (p'un a yw hynny'n wirfoddol ai peidio) â'i rôl o ran darparu'r Diplomâu Mynediad i AU

40.8 gofyn i'r darparwr gymryd pob cam rhesymol i ddiogelu buddiannau'r dysgwyr os bydd yn ymadael fel hyn

40.9 nodi mai un o amodau'r gymeradwyaeth i'r darparwr yw bod gofyn i'r darparwr gydnabod a chytuno nad yw'n bosibl trosglwyddo unrhyw Ddiploma neu gwrs Mynediad i AU a ddatblygir ganddo o un Asiantaeth DMiAU i un arall (gwelwch Amod C6).

**C1.3 - Cadarnhau'r gymeradwyaeth i'r darparwr**

41 Cyn y caniateir i ddarparwr ddarparu pob rhan neu unrhyw ran o unrhyw Ddiploma Mynediad i AU y mae wedi derbyn cymeradwyaeth i'w darparu, mae'n rhaid i'r Asiantaeth DMiAU sicrhau bod y cwrs/cyrsiau wedi eu rhestru ar gronfa ddata QAA o gyrsiau Mynediad i AU.

42 Bydd QAA yn trin unrhyw ddiweddariad o'r fath i gronfa ddata QAA o gyrsiau Mynediad i AU fel arwydd bod yr Asiantaeth DMiAU wedi cadarnhau'r gymeradwyaeth i'r darparwr ddarparu Diplomâu Mynediad i AU penodol (neu ddarpariaeth Mynediad i AU).

## Amod C2: Monitro darparwyr yn barhaus

43 Mae pob Asiantaeth DMiAU yn gyfrifol am lunio a gweithredu gweithdrefnau wedi eu dogfennu ar gyfer monitro perfformiad pob un o'i darparwyr a'u cydymffurfiad â gofynion QAA mewn perthynas â'r canlynol:

43.1 Manyleb y Diploma

43.2 y Cynllun Graddio

43.3 unrhyw ddefnydd a wneir o'r nodau masnach Mynediad i AU, fel y mae wedi ei nodi yn 'Amodau defnyddio'r nodau masnach Mynediad i AU', ac

43.4 unrhyw Ddisgrifydd Pwnc a allai fod yn berthnasol.

44 Trwy'r gweithdrefnau hyn ar gyfer monitro darparwyr, mae'n rhaid i bob Asiantaeth DMiAU allu dangos i QAA yn effeithiol sut mae'n gwneud yn siŵr ei bod yn cydymffurfio â'r Amodau Mynediad i Addysg Uwch drwy ddefnyddio a gweithredu proses o gymeradwyo darparwyr.

45 Dylai'r gweithdrefnau ar gyfer monitro darparwyr gynnwys manylion:

45.1 proses yr Asiantaeth DMiAU o asesu risgiau ar gyfer pob un o'i darparwyr

45.2 y camau unioni y bydd yr Asiantaeth DMiAU yn eu cymryd os bydd un o'i darparwyr yn methu cydymffurfio â'r gofynion a roddir arno, a

45.3 y trefniadau diogelu myfyrwyr y bydd yr Asiantaeth DMiAU yn eu gweithredu i sicrhau bod y myfyrwyr yn gallu parhau i astudio os bydd busnes un o'i darparwyr yn methu, neu os bydd y gymeradwyaeth i'r darparwr neu un o'i gyrsiau'n cael ei thynnu yn ei hôl.

46 Dylai pob Asiantaeth DMiAU hefyd ddisgrifio'r sancsiynau y gallai eu gorfodi er mwyn lleihau risgiau posibl i'r myfyrwyr os bydd darparwr eu cwrs yn methu cydymffurfio. Bydd y sancsiynau hyn yn cynnwys addasu neu atal cymeradwyaeth i ddarparwr neu ar gyfer Diploma Mynediad i AU penodol, neu dynnu cymeradwyaeth o'r fath yn ei hôl. Gallai'r sancsiynau hefyd gynnwys cryfhau neu ychwanegu telerau'r gymeradwyaeth i'r darparwr.

# Rhan 3: Dilysu, cymeradwyo, darparu a dyfarnu'r Diploma Mynediad i AU

## Adran D: Datblygu Diplomâu Mynediad i AU

### Amod D1: Cynnwys a strwythur y Diplomâu Mynediad i AU

**D1.1 - Cydymffurfio â'r Cynllun Cydnabod**

***Manyleb y Diploma Mynediad i Addysg Uwch***

47 Mae'n rhaid i bob Asiantaeth DMiAU sicrhau bod cynnwys a strwythur Diplomâu Mynediad i AU yn bodloni'r gofynion sydd wedi eu nodi ymhob adran o *Fanyleb y Diploma Mynediad i Addysg Uwch*, fel a ganlyn:

47.1 nodweddion y cymhwyster

47.2 manyleb y cyflawniad sy'n ofynnol i ennill y Diploma Mynediad i AU

47.3 y gofynion ychwanegol ar gyfer ennill Diploma Mynediad i AU penodol

47.4 diplomâu ac unedau

47.5 rheolau cyfuno

47.6 meini prawf eraill i ddiffinio cwblhad llwyddiannus

47.7 casglu credydau

47.8 cydnabod cyflawniad myfyrwyr, a

47.9 datblygu Diplomâu Mynediad i AU.

***Y Cynllun Graddio ar gyfer Mynediad i Addysg Uwch***

48 Mae'n rhaid i bob Asiantaeth DMiAU sicrhau bod cynnwys, strwythur a darpariaeth pob cwrs Diploma Mynediad i AU yn bodloni'r gofynion sydd wedi eu nodi ymhob adran o'r *Cynllun Graddio ar gyfer Mynediad i Addysg Uwch*, fel a ganlyn:

48.1 egwyddorion craidd

48.2 y graddau

48.3 y safonau graddio

48.4 defnyddio'r safonau graddio mewn asesu

48.5 safoni a sicrhau cydraddoldeb, a

48.6 dyfarnu'r Diploma Mynediad i AU.

***Disgrifwyr Pwnc ar gyfer Mynediad i Addysg Uwch***

49 Lle bo'n berthnasol, mae'n rhaid i bob Asiantaeth DMiAU sicrhau bod cynnwys a strwythur Diplomâu Mynediad i AU yn bodloni'r gofynion sydd wedi eu nodi yn *Nisgrifydd Pwnc* perthnasol y Diploma Mynediad i Addysg Uwch.

**D1.2 - Hygyrchedd y ddarpariaeth Diplomâu Mynediad i AU**

50 Fel corff dyfarnu, mae'n rhaid i bob Asiantaeth DMiAU sicrhau bod cynnwys, strwythur a darpariaeth pob cwrs Diploma Mynediad i AU yn cydymffurfio â darpariaethau perthnasol *Deddf Cydraddoldeb 2010*.[6]

51 Mae'n rhaid i bob Asiantaeth DMiAU fonitro'r Diplomâu Mynediad i AU y mae'n eu cynnig i ganfod unrhyw beth a allai achosi anfantais i'r myfyrwyr sydd ag un neu fwy o nodweddion gwarchodedig.

52 Os bydd yr Asiantaeth DMiAU yn canfod nodweddon o'r fath, rhaid iddi ystyried y ddyletswydd sydd arni o dan *Ddeddf Cydraddoldeb 2010* i wneud addasiadau rhesymol.

**D1.3 - Addasu unedau a Diplomâu**

53 Dylai pob Asiantaeth DMiAU fod â gweithdrefn wedi ei dogfennu ar gyfer rheoli'r broses o addasu unedau a Diplomâu. Mae'n rhaid i'r weithdrefn:

53.1 gydymffurfio â darpariaethau perthnasol *Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015*[7] lle bydd y newidiadau'n effeithio ar y myfyrwyr sydd wrthi'n astudio ar y cwrs Diploma

53.2 gynnwys trefnau ar gyfer cyfathrebu â'r myfyrwyr, lle bydd y newidiadau'n effeithio ar y myfyrwyr sydd wrthi'n astudio ar y cwrs Diploma

53.3 gynnwys mecanwaith i'r partïon perthnasol (megis darparwyr a safonwyr) gael awgrymu addasiadau

53.4 wahaniaethu rhwng addasiadau mawr a bach

53.5 gynnwys trefnau ar gyfer ymgynghori â'r partïon perthnasol (megis darparwyr, safonwyr a sefydliadau addysg uwch sy'n derbyn y myfyrwyr).

54 Unwaith y caiff yr addasiadau eu cymeradwyo, dylai'r Asiantaeth DMiAU sicrhau bod pob darparwr sy'n darparu'r Diploma/Diplomâu perthnasol yn cael ei hysbysu am yr addasiadau ar unwaith.

## Amod D2: Cymeradwyo Diplomâu a chyrsiau Mynediad i AU a'u dilysu'n barhaus

**D2.1 - Cymeradwyo a dilysu Diplomâu a chyrsiau Mynediad i AU ar y cychwyn**

***Diffiniadau***

Lle mae Diploma Mynediad i AU neu gwrs Mynediad i AU wedi ei **gymeradwyo**, mae hyn yn golygu ei fod wedi cael ei gymeradwyo i'w gyflwyno gan ddarparwr/ddarparwyr yn dilyn proses drwyadl o adolygu dilysiadau.

Lle mae Diploma Mynediad i AU neu gwrs Mynediad i AU wedi ei **ddilysu**, mae hyn yn golygu ei fod wedi mynd drwy broses adolygu drwyadl yr Asiantaeth DMiAU i sicrhau bod ei gynnwys, ei strwythur a'r ddarpariaeth arfaethedig yn bodloni gofynion rheoleiddiol y Cynllun Cydnabod.

Mae **panel dilysu'**n banel o aelodau sydd, ar y cyd, yn darparu profiad ac arbenigedd cyfredol a pherthnasol mewn:

---

[6] www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2010/15/contents

[7] www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2015/15/contents

- darparu ac asesu cyrsiau Diplomâu Mynediad i AU
- gwybodaeth am y cwricwlwm sy'n berthnasol i'r Diploma/Diplomâu a'r holl unedau sy'n cael eu hystyried
- darparu rhaglenni addysg uwch mewn meysydd astudio a ddynodir fel llwybrau cynnydd a fwriedir i'r Diploma/Diplomâu sydd dan sylw, a
- y gofynion mynediad ar gyfer y llwybrau cynnydd a fwriedir i addysg uwch.

***Diploma Mynediad i AU***

55 Mae'n rhaid i bob Asiantaeth DMiAU sefydlu a gweithredu gweithdrefn wedi ei dogfennu'n glir ar gyfer dilysu Diploma Mynediad i AU. Dylai'r weithdrefn gynnwys:

55.1 manylebau fformat a chynnwys y ddogfennaeth sydd i gael ei chyflwyno ar gyfer dilysu Diplomâu

55.2 manylion y prosesau a'r gofynion ar gyfer pob cam o'r broses ddilysu sy'n arwain at gydnabod y Diploma.

56 Dylai'r Asiantaeth DMiAU fod â meini prawf dilysu sy'n sicrhau'r canlynol er mwyn i bob Diploma gael ei ddilysu:

56.1 ei fod yn cydymffurfio â'r gofynion sydd wedi eu nodi yn yr Amodau Mynediad i Addysg Uwch, Manyleb y Diploma Mynediad i Addysg Uwch a'r Cynllun Graddio ar gyfer Mynediad i Addysg Uwch a, lle bo'n berthnasol, y *Disgrifwyr Pwnc ar gyfer Mynediad i Addysg Uwch*

56.2 fod ei lwybr(au) cynnydd posibl a fwriedir i addysg uwch wedi eu nodi'n glir, a bod y sylw a roddir i'r pwnc, lefel a strwythur y cynnwys, a'r opsiynau (lle maent ar gael) yn paratoi'r myfyrwyr yn briodol ar gyfer y llwybr hwnnw neu'r llwybrau hynny.

57 Dylai'r broses ddilysu gynnwys defnyddio panel dilysu i graffu ar y cynigion, a dylid gweithredu'r broses hon ar gyfer:

57.1 Diplomâu a ddatblygir gan Asiantaethau DMiAU sydd i gael eu darparu gan ddarparwyr cymeradwy, a

57.2 Diplomâu a ddatblygir gan ddarparwyr cymeradwy.

***Cwrs Mynediad i AU***

58 Lle mae darparwr cymeradwy'n gwneud cais am gymeradwyaeth i ddarparu cwrs Mynediad i AU sydd wedi ei seilio ar Ddiploma a ddatblygir gan Asiantaeth DMiAU, mae'r un gweithdrefnau a meini prawf dilysu sy'n berthnasol i gymeradwyo'r cwrs yn cael eu defnyddio ar gyfer y Diploma hwnnw.

***Rhoi cymeradwyaeth***

59 Lle mae Asiantaeth DMiAU yn cymeradwyo Diploma gydag amodau, dylai gadarnhau:

59.1 bod yr amodau'n sicrhau bod y Diploma'n bodloni meini prawf dilysu'r Asiantaeth DMiAU yn llawn

59.2 y dyddiad ar gyfer cyflawni unrhyw amodau (cyn i'r darparwr cyntaf ddechrau darparu'r Diploma, yn ôl y cynllun) a'r broses ar gyfer cadarnhau bod yr amodau wedi eu bodloni.

***Cyfnod dilysu***

60 Dylai'r cyfnod dilysu bara am bum mlynedd ar y mwyaf o ddyddiad y gymeradwyaeth gychwynnol, a dylai'r gymeradwyaeth gychwynnol gynnwys amserlen o ddigwyddiadau ail-ddilysu dilynol ar gyfer Diplomâu. Os bydd amgylchiadau eithriadol yn gofyn ymestyn y cyfnod safonol, dylai'r Asiantaeth DMiAU ystyried a ddylid ymestyn y cyfnod dilysu am hyd at flwyddyn fel arfer.

61 Unwaith y rhoddir cymeradwyaeth ac y mae'n cael ei chofnodi'n ffurfiol, dylai'r Asiantaeth DMiAU:

61.1 roi gwybod i'r darparwyr am y ffaith bod Diploma newydd ar gael (mewn perthynas â Diplomâu a ddatblygir gan Asiantaethau DMiAU)

61.2 ddiweddaru cronfa ddata QAA o gyrsiau Mynediad i AU.

**D2.2 - Ail-ddilysu Diploma Mynediad i AU**

62 Dylai pob Asiantaeth DMiAU fod â phroses ail-ddilysu a meini prawf perthnasol sy'n bodloni gofynion y broses o ddilysu Diplomâu ar y cychwyn.

63 Dylai'r broses ail-ddilysu gynnwys defnyddio panel dilysu i graffu ar y Diploma yn erbyn cyfres o feini prawf safonol, a dylid gweithredu'r broses hon ar gyfer:

63.1 Diplomâu a ddatblygir gan Asiantaethau DMiAU sydd i gael eu darparu gan ddarparwyr cymeradwy, a

63.2 Diplomâu a ddatblygir gan ddarparwyr cymeradwy.

**D2.3 - Sicrhau ansawdd**

64 Dylai pob Asiantaeth DMiAU fod â threfniant sicrhau ansawdd wedi ei ddogfennu'n glir sy'n caniatáu iddi gymeradwyo a monitro darpariaeth ac ansawdd cyrsiau Diplomâu Mynediad i AU a gynigir gan:

64.1 ddarparwyr sy'n atebol i gael eu harolygu'n allanol, a gan

64.2 ddarparwyr nad ydynt yn atebol i gael eu harolygu'n allanol.

65 Dylai'r trefniadau hyn ganiatáu i Asiantaethau DMiAU sicrhau bod profiadau'r myfyrwyr sydd wedi eu cofrestru ar gyrsiau Diploma Mynediad i AU darparwyr nad ydynt yn atebol i gael eu harolygu'n allanol yn:

- **gyfartal** - o leiaf yn gydradd o ran safon i brofiadau'r myfyrwyr sy'n astudio mewn sefydliadau sy'n atebol i gael eu harolygu'n allanol gan gyrff eraill
- **gyson** - darperir y rhaglen astudio gan athrawon cymwysedig mewn ffordd sydd o leiaf yn gyfatebol â darpariaeth sefydliadau eraill sy'n cynnig Diplomâu'r Asiantaeth DMiAU
- **gadarn** - mae'r profiad addysgol o leiaf yr un mor sicr ag ydyw ar gyfer y myfyrwyr hynny sy'n astudio mewn sefydliadau a gyllidir yn draddodiadol.

## Amod D3: Terfyniad y Diploma ac ymadawiad y darparwr

**D3.1 - Terfyniad y Diploma Mynediad i AU**

66 Os bydd Diploma i gael ei derfynu ar neu cyn diwedd ei gyfnod dilysu, bydd rhaid i'r Asiantaeth DMiAU roi gwybod i'r darparwyr am y dyddiad terfynol pan fo modd cofrestru

dechreuwyr newydd, gan ganiatáu amser rhesymol i fyfyrwyr cofrestredig gwblhau'r cwrs neu drosglwyddo i gwrs priodol arall. Lle bo'n briodol, dylid gwneud trefniadau i drosglwyddo credydau.

**D3.2 - Ymadawiad y darparwr**

67 Os bydd y darparwr yn ymadael â'i rôl o ran darparu'r Diploma/Diplomâu Mynediad i AU, bydd rhaid i'r Asiantaeth DMiAU gymryd pob cam rhesymol i ddiogelu buddiannau'r dysgwyr.

## Amod D4: Trosglwyddo Diplomâu a chyrsiau

**Diplomâu a chyrsiau Mynediad i AU a ddatblygir gan ddarparwyr**

68 Un o amodau'r gymeradwyaeth i'r darparwr yw bod y darparwr yn cydnabod a chytuno nad yw'n bosibl trosglwyddo unrhyw Ddiploma neu gwrs Mynediad i AU a ddatblygir ganddo o un Asiantaeth DMiAU i un arall (gwelwch Amod C1.2).

69 Os bydd un o'r darparwyr eisiau symud ei ddarpariaeth Mynediad i AU o un Asiantaeth DMiAU i un arall, bydd angen iddo wneud trefniadau i dynnu ei ddarpariaeth yn ei hôl oddi wrth yr Asiantaeth DMiAU bresennol a mynd drwy broses yr Asiantaeth DMiAU newydd o gymeradwyo a dilysu darparwyr.

**Diplomâu a chyrsiau Mynediad i AU a ddatblygir gan Asiantaethau DMiAU**

70 Mae modd i Asiantaeth DMiAU drosglwyddo Diploma a ddatblygir ganddi i Asiantaeth DMiAU arall. Wrth weithredu'r broses drosglwyddo, mae'r ddwy Asiantaeth DMiAU yn gyfrifol am sicrhau:

70.1 bod yr Asiantaeth DMiAU sy'n derbyn y myfyrwyr yn gallu gweithredu trefniadau digonol a phriodol ar gyfer sicrhau ansawdd a datblygu a chefnogi staff ar gyfer y Diploma/Diplomâu a/neu'r cwrs/cyrsiau sydd i gael eu trosglwyddo

70.2 bod gan yr Asiantaeth DMiAU sy'n derbyn y myfyrwyr yr adnoddau sy'n ofynnol i ail-ddilysu'r Diploma/Diplomâu neu'r cwrs/cyrsiau drwy ei gweithdrefnau dilysu arferol ei hun cyn i'r cyfnod dilysu presennol ar gyfer y Diploma/Diplomâu neu'r cwrs/cyrsiau a drosglwyddir ddod i ben

70.3 bod yr Asiantaeth DMiAU sy'n derbyn y myfyrwyr yn gallu cefnogi'r myfyrwyr hynny sydd ran o'r ffordd drwy gwrs i barhau i astudio a chyflawni, a bod trefniadau ar gyfer sicrhau parhad, sy'n ateb anghenion y myfyrwyr, wedi eu cadarnhau i'r myfyrwyr hynny sydd ran o'r ffordd drwy gwrs; a bod caniatâd i newid contract wedi ei sicrhau yn unol â darpariaethau perthnasol *Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015*[8]

70.4 bod trefniadau priodol wedi eu gwneud ar gyfer trosglwyddo unrhyw gofnodion o asesiadau a chyflawniadau ar gyfer myfyrwyr sydd wedi eu cofrestru ar gwrs ar y pwynt trosglwyddo, a

70.5 bod yr Asiantaeth DMiAU sy'n trosglwyddo'r myfyrwyr a'r un sy'n eu derbyn nhw wedi rhoi digon o ystyriaeth i'r ddeddfwriaeth eiddo deallusol ac unrhyw hawliau eiddo deallusol sy'n gysylltiedig â'r Diploma/Diplomâu a/neu'r cwrs/cyrsiau a drosglwyddir.

[8] www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2015/15/contents

## Adran E: Gosod, darparu a safoni asesiadau

### Amod E1: Gweithredu trefniadau safoni a sicrhau cydraddoldeb

***Diffiniadau***

Mae'r gair '**dilys**' yn golygu bod safonau'r dyfarniadau'n cyfateb â'r pwyntiau cyfeirio allanol sy'n berthnasol i'r Diploma Mynediad i AU (mae hyn yn golygu bod y graddau a roddir i waith a aseswyd yn adlewyrchu'r safon cyflawniad a ddiffinnir yn neilliannau dysgu'r uned ac elfennau ac is-elfennau'r radd a ddefnyddir o'r safonau graddio).

Mae'r gair '**dibynadwy**' yn golygu bod safonau cyson mewn dyfarnu graddau'n cael eu cynnal gan y tiwtoriaid unigol, o fewn timau'r cyrsiau, ar draws y darparwyr, ar draws yr Asiantaeth DMiAU gyfan, a dros amser (h.y. rhoddir yr un radd/graddau pan ddangosir bod y safonau perfformiad yn gymaradwy).

71 Mae'n rhaid i bob Asiantaeth DMiAU sefydlu a gweithredu gweithdrefnau safoni a sicrhau cydraddoldeb wedi eu dogfennu'n glir sy'n sicrhau dull cyffredinol o asesu a graddio a safonau cyson mewn dyfarnu graddau ar gyrsiau Diploma Mynediad i AU.

72 Dylai'r gweithdrefnau hyn sicrhau bod yr Asiantaeth DMiAU yn gweithredu yn unol â gofynion y *Cynllun Graddio ar gyfer Mynediad i AU*, a dylai'r gweithdrefnau ymwneud â phob agwedd o'r gwaith o gynllunio a chynnal asesiadau, gan gynnwys:

72.1 cynllunio unedau

72.2 strategaeth asesu ar lefel cwrs

72.3 cynllunio asesiadau ar lefel uned

72.4 penderfyniadau asesu

72.5 penderfyniadau safonwyr

72.6 ailgyflwyno ac ailasesu.

73 Wrth gynllunio a gweithredu ei dulliau ei hun o safoni a sicrhau cydraddoldeb, dylai'r Asiantaeth DMiAU wneud yn siŵr ei bod yn cymryd i ystyriaeth yr angen am:

73.1 sicrhau cydraddoldeb o fewn y darparwr

73.2 sicrhau cydraddoldeb rhwng darparwyr

73.3 safoni i sicrhau cydraddoldeb.

74 Dylai Asiantaethau DMiAU lunio eu dulliau safoni i wneud yn siŵr bod beirniadaethau asesu (a graddio) yn **ddilys** ac yn **ddibynadwy**, ac i ganiatáu i:

74.1 safonwyr ymwneud â phenderfyniadau asesu a graddio cyn i'r myfyriwr gwblhau 30 credyd o astudio

74.2 safonwyr herio graddau dros dro a chynghori arnynt, lle bo'n ofynnol.

75 Hefyd, dylai tiwtoriaid a safonwyr mewnol ac allanol gael y cyfle i drafod a graddnodi eu disgwyliadau o ran y safonau gwaith a ddisgwylir yn ôl:

75.1 gofynion unrhyw waith ar lefel 2 neu 3

75.2 deilliannau dysgu a meini prawf asesu'r unedau penodol y maent yn gweithio gyda nhw

75.3 y disgrifwyr gradd.

### Amod E2: Cynllunio asesiadau

76 Wrth osod asesiadau, dylai'r Asiantaeth DMiAU sicrhau bod cynnwys pob asesiad:

76.1 yn briodol i'r dull darparu a'r cyfrwng darparu

76.2 yn sicrhau lefel briodol o her academaidd

76.3 yn darparu cyfleoedd, sy'n briodol i'r dull astudio, i'r myfyrwyr gyflawni'r deilliannau dysgu a'r meini prawf asesu ar gyfer yr uned

76.4 yn darparu cyfleoedd i wahaniaethu yn ôl perfformiad yn unol â gofynion y disgrifwyr gradd

76.5 yn gofyn am ddangos sgiliau academaidd

76.6 yn hwyluso proses ddilys a dibynadwy o asesu cyflawniad myfyrwyr.

#### Hygyrchedd yr asesiadau

77 Wrth gynllunio a gosod asesiadau, mae'n rhaid i bob Asiantaeth DMiAU wneud yn siŵr ei bod yn cydymffurfio â darpariaethau perthnasol *Deddf Cydraddoldeb 2010*[9], gan ystyried y ddyletswydd sydd arni i wneud addasiadau rhesymol.

### Amod E3: Camymddwyn academaidd (gan gynnwys mewn perthynas ag offer deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol)

78 Mae'n rhaid i bob Asiantaeth DMiAU sefydlu a gweithredu polisi camymddwyn academaidd (sy'n ymwneud â'r canlynol o leiaf: llên-ladrad, cydgynllwynio, 'twyll contract' a'r defnydd derbyniol o offer deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol) i sicrhau y cynhelir ansawdd a safonau ac uniondeb academaidd wrth gynllunio a gweithredu asesiadau.

79 Dylai'r polisi nodi beth, ym marn yr Asiantaeth DMiAU, a ystyrir yn ddefnydd derbyniol o offer deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol, a beth sy'n annerbyniol a sut y gallai hyn gael ei drin fel camymddwyn academaidd.

80 Wrth ddatblygu a chynnal ei safbwynt o ran polisi ar ddefnyddio offer deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol mewn asesiadau, dylai pob Asiantaeth DMiAU roi ystyriaeth i ganllawiau perthnasol a gyhoeddir gan QAA o bryd i'w gilydd, yn ogystal ag unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol, gan ystyried y dulliau a ddefnyddir yn gyffredin ac yn gyffredinol ar draws sector addysg uwch y DU.

### Amod E4: Safoni

#### E4.1 - Safoni mewnol

81 Mae'n rhaid i bob Asiantaeth DMiAU osod gofynion i sicrhau bod ei darparwyr yn defnyddio gweithdrefnau safoni mewnol trwyadl sy'n hwyluso:

81.1 gosod safonau cyson o her academaidd mewn asesiadau

[9] www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2010/15/contents

81.2 asesiadau a gynllunnir er mwyn sicrhau orau fod deilliannau'r asesiadau'n ddilys ac yn ddibynadwy

81.3 bodloni gofynion Manyleb y Diploma Mynediad i Addysg Uwch a'r Cynllun Graddio ar gyfer Mynediad i Addysg Uwch mewn ffordd gyson a chywir, fel y bo'n briodol.

### E4.2 - Safoni allanol

82 Mae'n rhaid i bob Asiantaeth DMiAU drefnu goruchwyliaeth briodol gan safonwyr allanol dros y broses safoni fewnol er mwyn sicrhau y gweithredir y broses hon yn unol â gofynion cyhoeddedig yr Asiantaeth DMiAU.

### E4.3 - Recriwtio, dethol a phenodi safonwyr allanol

83 Dylai'r Asiantaeth DMiAU weithredu gweithdrefnau safonol ar gyfer dethol a phenodi safonwyr allanol sy'n sicrhau bod ei safonwyr:

83.1 yn meddu ar brofiad perthnasol mewn addysgu ac asesu ym meysydd addysg i oedolion, addysg bellach neu addysg uwch

83.2 yn meddu ar wybodaeth berthnasol a chyfredol yn y maes/meysydd astudio y maent yn gyfrifol am eu safoni, ar lefel sy'n gyfatebol â lefel eu gwaith safoni neu'n uwch

83.3 yn dod o'r tu allan i'r darparwr/darparwyr a fydd dan sylw yn eu gwaith safoni

83.4 wedi datgelu unrhyw wrthdaro buddiannau hysbys neu debygol a gofnodir gan yr Asiantaeth DMiAU.

### E4.4 - Ymsefydlu a hyfforddi safonwyr allanol

84 Mae pob Asiantaeth DMiAU yn gyfrifol am ymsefydlu a hyfforddi safonwyr allanol er mwyn sicrhau bod ganddynt y cymwysterau priodol sy'n ofynnol i:

84.1 farnu yn erbyn safonau perfformiad sy'n dangos cyflawniad yn unol â disgrifydd lefel 3 Ofqual yn Lloegr, neu lefel 3 *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru* (FfCChC).

84.2 feirniadu pa mor gymaradwy yw'r safonau mewnbwn ac allbwn ar draws y ddarpariaeth sydd dan sylw yn eu gwaith safoni.

85 Dylai pob Asiantaeth DMiAU ddarparu canllawiau ysgrifenedig i'w safonwyr a'u darparwyr sy'n rhoi manylion pob agwedd o fodel asesu'r Diploma Mynediad i AU, gan gynnwys gwybodaeth am brosesau a safonau graddio.

### E4.5 - Adroddiadau safonwyr

86 Dylai pob Asiantaeth DMiAU sicrhau bod ei safonwyr yn cynnwys gwybodaeth yn eu hadroddiadau am y canlynol:

86.1 safonau cyflawniad a pherfformiad y myfyrwyr sy'n astudio ar bob un o'r cyrsiau Mynediad i AU, gan gynnwys gwybodaeth am y graddau a ddyfernir

86.2 y broses asesu a ddefnyddir ar bob cwrs, gan gynnwys y defnydd a wneir o safonau graddio a gweithrediad yr arferion graddio.

87 Os bydd yr Asiantaeth DMiAU yn derbyn adroddiad safonwr, dylai wneud yn siŵr ei bod yn:

87.1 ymateb yn brydlon i bob adroddiad safonwr unigol

87.2 rhoi copïau o adroddiad y safonwr i aelodau priodol o staff y darparwr perthnasol

87.3 sicrhau y tynnir sylw'r darparwr at faterion a godir mewn adroddiadau sy'n gofyn i'r darparwr gymryd camau penodol gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, ochr yn ochr ag amserlen glir ar gyfer eu gweithredu.

## Adran F: Dyfarnu'r cymhwyster

### Amod F1: Cydnabod cymwysterau

#### F1.1 - Gweithdrefnau ar gyfer dyfarnu Diplomâu Mynediad i AU

88 Dylai'r gweithdrefnau sydd gan yr Asiantaeth DMiAU ar gyfer dyfarnu Diplomâu Mynediad i AU sicrhau:

88.1 y gweithredir proses safoni derfynol cyn cyfarfod y Bwrdd Dyfarnu Terfynol a chyn iddo wneud argymhellion i'r Asiantaeth DMiAU mewn perthynas â dyfarnu credydau, graddau neu Ddiplomâu

88.2 y dyfernir credydau i bob myfyriwr sydd wedi ei gofrestru ar gyrsiau Mynediad i AU a, lle bo'n briodol, y dyfernir graddau ar gyfer pob uned a gyflawnir, a Diploma Mynediad i AU os cyflawnir yr unedau gofynnol

88.3 y diffinnir swyddogaeth, prosesau ac aelodaeth y Bwrdd Dyfarnu Terfynol yn glir

88.4 y bodlonir pob un o'r gofynion sydd wedi eu nodi yn y Cynllun Cydnabod.

#### F1.2 - Ardystio

89 Dylai pob Asiantaeth DMiAU wneud yn siŵr ei bod yn cyflwyno tystysgrif Diploma Mynediad i AU i bob myfyriwr sydd wedi ennill y Diploma Mynediad i AU.

90 Dylid llunio tystysgrifau Diploma Mynediad i AU gan ddilyn y fformat sydd wedi ei nodi yn Atodiad 3 *Amodau defnyddio'r nodau masnach Mynediad i AU*, gan roi teitl y Diploma fel y nodir yn Atodiad A *Manyleb y Diploma Mynediad i Addysg Uwch*.

91 Os bydd yr Asiantaeth DMiAU yn dod yn ymwybodol o unrhyw wall yn ymwneud â dyfarnu neu ardystio'r Diploma Mynediad i AU, dylai ei gywiro ar unwaith.

#### F1.3 - Trawsgrifiad o gyflawniad

92 Dylai pob Asiantaeth DMiAU gyflwyno trawsgrifiad o gyflawniad ar gyfer pob uned i bob myfyrwyr sydd wedi ennill y Diploma Mynediad i AU. Dylai'r trawsgrifiad nodi'r radd a ddyfarnwyd ar gyfer pob uned a faint o gredydau a ddyfarnwyd ar gyfer pob uned raddedig neu anraddedig a gyflawnwyd yn llwyddiannus.

93 Os bydd un o'r myfyrwyr wedi cyflawni llai na'r 60 credyd sy'n ofynnol i ennill y Diploma Mynediad i AU, dylai'r Asiantaeth DMiAU gyflwyno trawsgrifiad yn unig. Dylai'r trawsgrifiad nodi'r unedau, y credydau a, lle bo'n briodol, y graddau a gyflawnwyd.

# Atodiad B: Y Cytundeb Trwyddedu i Asiantaethau Dilysu Mynediad i Addysg Uwch

## Cyflwyniad

1 Mae'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA) yn gyfrifol am reoleiddio'r Diploma Mynediad i Addysg Uwch (AU). Mae Cynllun Cydnabod QAA ar gyfer Mynediad i AU ('y Cynllun Cydnabod') yn darparu'r fframwaith rheoleiddio y mae QAA yn ei ddefnyddio i gyflawni'r cyfrifoldeb hwn. O dan y fframwaith hwn, mae QAA yn awdurdodi sefydliadau i ddatblygu, dilysu, cymeradwyo a dyfarnu Diplomâu Mynediad i AU. Yr enw a roddir ar sefydliad sydd wedi ei awdurdodi gan QAA at y dibenion hyn yw Asiantaeth Dilysu Mynediad i Addysg Uwch ('Asiantaeth DMiAU').

2 Gellir rhannu'r Cynllun Cydnabod i'r pum maes a ganlyn:

2.1 **Y Trefniadau Trwyddedu:** Dyma'r trefniadau sydd gan QAA i reoli'r broses o drwyddedu Asiantaethau DMiAU. Maent yn nodi'r gofynion ar gyfer dod yn Asiantaeth DMiAU ('y Cytundeb Trwyddedu') a chynnal trwydded Asiantaeth DMiAU.

2.2 **Yr Amodau Mynediad i AU:** Dyma'r amodau y mae'n rhaid i Asiantaeth DMiAU barhau i'w bodloni wedi iddi lwyddo i gael ei thrwydded Asiantaeth DMiAU. Mae'n rhaid i sefydliad sydd eisiau dod yn Asiantaeth DMiAU ddangos sut mae'n bodloni, neu sut y gallai fodloni, nifer o'r amodau hyn.

2.3 **Y trefniadau monitro:** Dyma'r trefniadau monitro y mae QAA yn eu defnyddio i benderfynu a yw Asiantaeth DMiAU yn bodloni gofynion y Cynllun Cydnabod. Mae hyn hefyd yn cynnwys gwybodaeth am y dulliau y gallai QAA eu defnyddio os bydd ganddi bryderon am gydymffurfiad yr Asiantaeth DMiAU â gofynion y Cynllun Cydnabod.

2.4 **Y gofynion o ran y cymhwyster:** Mae'r gofynion hyn wedi eu nodi ym Manyleb y Diploma, y Cynllun Graddio a'r Disgrifwyr Pwnc. Mae Manyleb y Diploma a'r Cynllun Graddio'n nodi gofynion QAA o ran cynllunio, darparu, asesu a dyfarnu'r Diploma. Mae'r Disgrifwyr Pwnc yn nodi'r gofynion o ran cynnwys rhai meysydd astudio penodol. Gyda'i gilydd, mae'r gofynion hyn o ran y cymhwyster yn sicrhau bod y cymhwyster yn gyson, a'i fod yn gyson ar draws yr Asiantaethau DMiAU.

2.5 **Canllawiau:** O bryd i'w gilydd, bydd QAA yn cynhyrchu canllawiau sy'n rhoi rhagor o esboniad a manylion ynglŷn â sut y bydd elfennau penodol o'r Cynllun Cydnabod yn gweithredu neu'n cael eu rhoi ar waith gan QAA.

3 Mae'r ddogfen hon yn disgrifio telerau'r Cytundeb Trwyddedu i Asiantaethau DMiAU a'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer dod yn Asiantaeth DMiAU a chynnal trwydded Asiantaeth DMiAU.

### Manteision y drwydded Asiantaeth DMiAU

4 Mae dyfarnu trwydded Asiantaeth DMiAU yn rhoi amrywiaeth o fanteision i'r Asiantaeth DMiAU, yn cynnwys:

4.1 cynnig gwasanaethau ar gyfer datblygu a chydnabod cyrsiau Mynediad i AU a dyfarnu Diplomâu Mynediad i AU

4.2 defnyddio'r nodau masnach Mynediad i AU i ddangos eu bod yn Asiantaeth DMiAU drwyddedig ac i ddangos statws y gwaith a wnânt mewn perthynas â darpariaeth Mynediad i AU gydnabyddedig

4.3 manteisio ar waith QAA o ddatblygu a chyhoeddi gwybodaeth am y Diploma Mynediad i AU, a'r data ystadegol a'r cyngor a roddir gan QAA i ddarparwyr addysg uwch

4.4 derbyn gwybodaeth gan QAA am ddatblygiadau yn ymwneud â'r Cynllun Cydnabod, a chael eu gwahodd i gymryd rhan mewn cyfarfodydd a chynadleddau a drefnir gan QAA ac ymateb i ymgynghoriadau ffurfiol

4.5 bydd ei chyrsiau Mynediad i AU wedi eu rhestru ar gronfa ddata QAA o gyrsiau, a rhoddir gwybod i'r bobl sy'n gwneud ymholiadau i QAA pa gyrsiau Mynediad i AU sydd ar gael

4.6 hyrwyddo ei chyrsiau cydnabyddedig a'i chyfleoedd i symud ymlaen i fyfyrwyr, gan gyfeirio at hygrededd y Diploma Mynediad i AU yn y sector addysg uwch sy'n deillio o waith uchel ei barch QAA o reoli a chynnal trefniadau cenedlaethol.

## Cyfnod dilysrwydd trwydded Asiantaeth DMiAU

5 Dyfernir trwydded Asiantaeth DMiAU am gyfnod penodol o amser, wedi hynny mae'n rhaid i Asiantaeth DMiAU wneud cais eto i gadw ei thrwydded. Penderfynir ar gyfnod dilysrwydd trwydded Asiantaeth DMiAU ar sail unigol, ond bydd yn atebol i'r safiad polisi cyffredinol a ganlyn fel canllaw:

| **Math o drwydded** | **Cyfnod o ddilysrwydd** |
|---|---|
| Trwydded newydd - i Asiantaethau DMiAU newydd | Cyfnod o dair blynedd ar y mwyaf |
| Trwydded wedi'i hadnewyddu - Asiantaethau DMiAU sy'n gwneud cais i gael eu hail-drwyddedu, lle nad oes unrhyw bryderon parhaus am eu cydymffurfiad (er enghraifft, nid ydynt yn derbyn ymchwiliad parhaus ar hyn o bryd) ac nid ydynt yn atebol i unrhyw weithgareddau rheoleiddio | Pum mlynedd |
| Trwydded wedi'i hadnewyddu - Asiantaethau DMiAU sy'n gwneud cais i gael eu hail-drwyddedu, lle mae pryderon parhaus am eu cydymffurfiad neu lle mae'r Asiantaeth DMiAU yn atebol i weithredu cyfredol gan QAA o ganlyniad i unrhyw weithgareddau monitro | Tair blynedd |

6 Mae QAA yn cadw'r hawl, yn ôl ei dewis ei hun yn unig, i roi cyfyngiadau penodol ar weithrediad y drwydded, neu i dynnu'r drwydded yn ei hôl, yn unol â'i gweithdrefnau. Os bydd QAA yn defnyddio'r hawl hon, bydd yr Asiantaeth DMiAU yn cael gwybod am y rhesymau ac yn derbyn digon o rybudd cyn y gweithredir ar y penderfyniad; rhaid talu ffioedd am unrhyw weithgareddau nad ydynt yn berthnasol i'r broses o fonitro Asiantaethau DMiAU yn flynyddol.

# Telerau'r Cytundeb Trwyddedu i Asiantaethau DMiAU

7 Dyfernir trwydded Asiantaeth DMiAU o dan y telerau a ganlyn ('Telerau') y mae'n rhaid i bob Asiantaeth DMiAU gydymffurfio â nhw, yn ogystal â phob elfen arall o'r Cynllun Cydnabod. Mewn perthynas â'r Telerau hyn, mae'r term 'darparwr' yn cyfeirio at ddarparwr awdurdodedig cyrsiau Mynediad i AU.

8 Gallai QAA wneud ymchwiliad i'r Asiantaeth DMiAU neu unrhyw rai o'i Darparwyr os bydd angen, ar unrhyw adeg pan roddir rhybudd rhesymol, am unrhyw reswm dilys. Mae rhesymau o'r fath yn cynnwys (ond heb eu cyfyngu i) amgylchiadau lle mae tystiolaeth o ddiffyg cydymffurfiad ag unrhyw rai o'r Telerau hyn, neu unrhyw rai o'r meini prawf neu'r dogfennau y cyfeirir atynt yn y Telerau hyn. Gall ymchwiliadau o'r fath ddigwydd ar safleoedd Asiantaethau DMiAU neu Ddarparwyr awdurdodedig cyrsiau Mynediad i AU a gallant arwain at roi gweithdrefnau ar waith i dynnu'r drwydded yn ei hôl, neu wneud gweithgareddau rheoleiddio eraill.

9 Rhaid talu ffioedd am unrhyw ymchwiliad neu weithgareddau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r broses safonol o fonitro Asiantaethau DMiAU.

10 Oni bai ei fod yn nodi'n wahanol, os bydd y Telerau hyn yn gwrthdaro ag unrhyw ddogfen y cyfeirir ati yn y Telerau hyn, dylai'r Telerau hyn gael blaenoriaeth.

## Hunaniaeth, cyfansoddiad a threfniadau llywodraethu

11 Mae'n rhaid i Asiantaeth DMiAU fod yn gwmni sydd wedi ei gofrestru yng Nghymru neu Loegr, rhaid iddi fod wedi ei seilio ar gyfansoddiad sy'n eglur ac yn bendant, a bod â dogfennau ffurfiol sy'n rhoi manylion ei hunaniaeth gyfreithiol, ei swyddogaeth(au), ei hamcan(ion) a'i phrif strwythurau llywodraethu.

12 Ar y cyd, mae hunaniaeth gyfreithiol, cyfansoddiad a threfniadau llywodraethu'r Asiantaeth DMiAU yn sicrhau:

12.1 ei bod yn cael ei diogelu rhag dylanwad gormodol unrhyw un o'i haelodau, neu leiafswm ohonynt

12.2 ei gallu i wneud penderfyniadau a gweithredu'n annibynnol fel Asiantaeth DMiAU, fel sy'n ofynnol yn ôl y meini prawf hyn a gofynion eraill y Cynllun Cydnabod.

13 Ni chaiff yr Asiantaeth DMiAU ei hun ddarparu Diplomâu Mynediad i AU na derbyn myfyrwyr Mynediad i AU.

## Telerau'r cytundeb

14 Mae'r Asiantaeth DMiAU yn cytuno y bydd yn:

14.1 gweithredu yn unol â'r rheoliadau sydd wedi eu nodi yng Nghynllun Cydnabod QAA ar gyfer Mynediad i Addysg Uwch (yn cynnwys yr Amodau Mynediad i AU), a gofynion eraill o'r fath y gallai QAA eu gosod i Asiantaethau DMiAU o bryd i'w gilydd

14.2 cyflawni ei chyfrifoldebau fel Asiantaeth DMiAU drwy ei sefydliad ei hun, fel sy'n ofynnol yn ôl yr Amodau Mynediad i AU, a pheidio dirprwyo unrhyw ran o'r cyfrifoldebau hynny i unrhyw gorff arall, yn dilyn cymeradwyaeth QAA o drefniadau'r sefydliad i weithredu'r drwydded

14.3 dilyn, ac yn gallu dangos ei bod wedi dilyn, y gweithdrefnau a nodwyd ganddi yn ei chyflwyniadau ffurfiol i QAA i ddangos ei threfniadau ar gyfer sicrhau cydymffurfiad â'r Amodau Mynediad i AU, y mae QAA wedi eu cymeradwyo drwy'r prosesau o drwyddedu neu fonitro Asiantaethau DMiAU

14.4 darparu adnoddau i weithredu'r gweithdrefnau cymeradwy'n llawn sydd wedi eu disgrifio yn ei dogfennaeth ffurfiol neu ei chyflwyniadau ffurfiol i QAA, ac i fodloni gofynion y gallai QAA eu gosod er mwyn cael parhau'r drwydded

14.5 gwneud cyfraniad blynyddol penodol y mae QAA wedi ei bennu i gostau cynnal a datblygu Cynllun Cydnabod QAA ar gyfer Mynediad i Addysg Uwch

14.6 rhoi gwybod i QAA am unrhyw newidiadau arfaethedig ym mherchnogaeth yr Asiantaeth DMiAU

14.7 cymryd cyngor cyfreithiol ac ymgynghori â QAA cyn mabwysiadu hunaniaeth gyfreithiol newydd, er mwyn cadarnhau:

- bod yr hunaniaeth newydd yn briodol i gyflawni ei dyletswyddau tuag at y cyhoedd, a
- bod yr hunaniaeth newydd (neu unrhyw drefniadau ychwanegol eraill) yn sicrhau bod rhwymedigaeth yr Asiantaeth DMiAU yn bodoli ar wahân i rwymedigaethau aelod-sefydliadau neu sefydliadau partner a'u cynrychiolwyr unigol

14.8 cyfranogi yng ngweithdrefnau QAA, a chydweithredu â nhw, ar gyfer trwyddedu a monitro Asiantaethau DMiAU, gan gynnwys cyflwyno adroddiadau a data, yn unol â'r gofynion a osodir gan QAA; ac yn cydymffurfio â gofynion QAA o ran parhad ei thrwydded

14.9 peidio â chymryd unrhyw gamau, na gwneud unrhyw hepgoriadau, sy'n rhoi enw drwg i'r cymhwyster Mynediad i AU, Cynllun Cydnabod QAA ar gyfer Mynediad i Addysg Uwch, neu QAA ei hun, neu sy'n niweidio ewyllys da neu enw da nod masnach y logo Mynediad i AU a nod masnach y geiriau Mynediad i AU (y 'nodau masnach Mynediad i AU')

14.10 defnyddio, ac yn sicrhau mai dim ond Darparwyr cymwys sy'n defnyddio, y nodau masnach Mynediad i AU yn y ffurfiau a'r ffyrdd a ganiateir yn ôl *'Amodau defnyddio'r nodau masnach Mynediad i AU'* QAA ar gyfer defnyddio'r logo Mynediad i AU (y gallai gael ei ddiwygio o bryd i'w gilydd) ac yn cydymffurfio, ac yn sicrhau bod y darparwyr yn cydymffurfio, â holl ddarpariaethau eraill y ddogfen honno a'r Meini Prawf Trwyddedu wrth ddefnyddio'r nodau masnach Mynediad i AU

14.11 peidio is-drwyddedu, trosglwyddo, neu ollwng mewn unrhyw ffordd arall, unrhyw hawliau a ganiateir i'r Asiantaeth DMiAU o dan y Telerau hyn i unrhyw drydydd parti, heblaw i Ddarparwyr cymwys yn unol â'r Telerau hyn, a hefyd yn cydnabod bod unrhyw hawliau ac ewyllys da mewn perthynas â'r nodau masnach Mynediad i AU yn eiddo i QAA ac na fydd yr Asiantaeth DMiAU, nac unrhyw Ddarparwr, yn cael unrhyw hawliau am y nodau masnach Mynediad i AU heblaw'r rheiny sydd wedi eu nodi'n eglur yn yr Amodau hyn

14.12 gwneud arolygiad neu archwiliad ar unrhyw adeg, gyda rhybudd rhesymol, yn unrhyw un neu fwy o'r Darparwyr, os oes cred resymol nad yw'r Darparwr yn defnyddio'r nodau masnach Mynediad i AU yn unol â gofynion unrhyw ran o'r Cynllun Cydnabod, gan gynnwys, ond heb eu cyfyngu i, y canllawiau am ddefnyddio'r nodau masnach Mynediad i AU.

## Diffyg cydymffurfiad

15 Mae'r Asiantaeth DMiAU yn cydnabod y gallai QAA gymryd y camau a ganlyn os bydd QAA, yn ei barn resymol hi, yn dod i'r casgliad bod diffyg cydymffurfiad, neu risg o ddiffyg cydymffurfiad, gydag unrhyw agwedd o'r Cynllun Cydnabod:

15.1 cyflwyno hysbysiad i Asiantaeth DMiAU sy'n gofyn i'r Asiantaeth DMiAU gymryd camau gweithredu penodol i fynd i'r afael â diffyg cydymffurfiad, neu risg o ddiffyg cydymffurfiad

15.2 gorfodi unrhyw amodau penodol ar Asiantaeth DMiAU y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â nhw, a allai ofyn i'r Asiantaeth DMiAU gymryd camau gweithredu penodol, neu ei hatal rhag cymryd camau penodol

15.3 gorfodi sancsiynau ffurfiol ar yr Asiantaeth DMiAU fel bod cyfyngiad ar y gweithgareddau y gall Asiantaeth DMiAU eu gwneud o dan ei thrwydded, neu wahardd ei thrwydded.

16 Os bydd QAA wedi cymryd unrhyw gamau fel y rhai sydd wedi eu nodi ym mharagraff 15.1 uchod, ac os bydd yr Asiantaeth DMiAU wedi methu cydymffurfio â'r camau, neu'r mater a barodd i QAA ddod i'r casgliad, yn ei barn resymol hi, bod diffyg cydymffurfiad, neu risg o ddiffyg cydymffurfiad, gydag unrhyw agwedd o'r Cynllun Cydnabod, mae'r Asiantaeth DMiAU yn cydnabod y gallai QAA gymryd camau pellach fel sydd wedi eu nodi ym mharagraff 15.2 uchod, neu y gallai gyflwyno hysbysiad yn ôl paragraff 15.1 - er mwyn terfynu'r drwydded Asiantaeth DMiAU.

17 Mae'r Asiantaeth DMiAU yn cydnabod y gallai QAA derfynu'r drwydded ar unwaith ar unrhyw adeg drwy gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r Asiantaeth DMiAU:

17.1 os bydd yr Asiantaeth DMiAU yn torri unrhyw rai o'r Telerau hyn neu'r Amodau Mynediad i AU ac, ar yr amod bod modd unioni'r torri telerau neu amodau, bod yr Asiantaeth DMiAU wedi methu unioni'r toriad hwn o fewn 30 diwrnod i ddyddiad yr hysbysiad gan QAA sy'n gofyn iddi gymryd camau unioni o'r fath

17.2 os gorchmynnir neu os gwneir penderfyniad i ddirwyn i ben yr Asiantaeth DMiAU (heblaw er mwyn cyfuno neu adlunio solfent) neu os bydd yr Asiantaeth DMiAU yn dod yn atebol i orchymyn gweinyddu, neu os bydd derbynnydd neu dderbynnydd gweinyddol wedi eu penodi ar unrhyw ran o eiddo'r Asiantaeth DMiAU, neu os bydd unrhyw barti sydd â llyffethair ar unrhyw ran o'i heiddo'n cymryd meddiant ohono

17.3 os bydd yr Asiantaeth DMiAU yn methu cydymffurfio â pharagraff 14.7 drwy gychwyn hunaniaeth gyfreithiol newydd heb gymryd cyngor cyfreithiol ac heb lynu at weithdrefnau perthnasol QAA

17.4 os bydd yr Asiantaeth DMiAU yn methu cydymffurfio â'r canllawiau ar gyfer defnyddio'r logo Mynediad i AU, neu os cafwyd niwed neu mae'n debygol y bydd niwed i enw da QAA, neu enw da ei Chynllun Cydnabod ar gyfer Mynediad i Addysg Uwch, neu i unrhyw rai o'r nodau masnach Mynediad i AU, am fod yr Asiantaeth DMiAU wedi gwneud unrhyw weithred neu hepgoriad

17.5 os bydd risg, ym marn resymol QAA, drwy'r modd y mae'r Asiantaeth DMiAU yn defnyddio'r nodau masnach Mynediad i AU, y gallai'r nod masnach Mynediad i AU golli ei werth oherwydd ei ddefnydd neu gymhwysiad generig; neu fod y nod masnach wedi cael ei ddefnyddio mewn ffordd sy'n awgrymu y byddai QAA wedi cymeradwyo gweithgareddau nad ydynt yn ymwneud â Mynediad i AU

17.6 os bydd ei ddefnydd gan unrhyw rai o Ddarparwyr yr Asiantaeth DMiAU yn achosi, neu'n debygol o achosi, un o'r canlyniadau sydd wedi eu nodi ym mharagraffau 17.4 a 17.5 uchod, ac os bydd QAA wedi rhoi gwybod i'r Asiantaeth DMiAU am amgylchiadau o'r fath, ac os bydd yr Asiantaeth DMiAU wedi methu cymryd camau unioni priodol o fewn amser rhesymol ar ôl cael eu rhybuddio i wneud hynny.

Cyhoeddwyd ym mis Mai 2024

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2024
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw GL1 1UB
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786

+44 (0)1452 557 000
[www.qaa.ac.uk](http://www.qaa.ac.uk)